**WPMC(17)13**

# PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU

## CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020

**Dyddiad:** 24 Chwefror 2017

**Amser:** 9.30 am

**Lleoliad:** Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful

## AGENDA

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | Croeso ac ymddiheuriadau | 09:30-09:35 | |
| 2. | Trefniadau Pontio'r UE / cyfathrebu - Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC | 09:35-10:35 | WPMC(17)89 |
| 3. | Cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr, camau gweithredu a materion eraill sy'n codi | 10:35 – 10:45 | WPMC(16)M13 |
| | **** Egwyl 10:45 am – 11:00 am** ** | | |
| 4. | Y diweddaraf am gynnydd Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, gan gynnwys datblygu portffolios<br><u>I gynnwys</u>: | 11:00 – 11:15 | WPMC(17)90 |
| | (a) Rhaglenni ERDF | 11:15 – 11:30 | |
| | (b) Rhaglenni ESF | 11:30 – 11:45 | |
| | (c) Rhaglenni Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru | 11:45 – 12:00 | |
| 5. | Cyflwyniad: Rhanbarth y De-ddwyrain | 12:00 – 12:20 | |
| 6. | Themâu trawsbynciol: Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy | 12:20 – 12:40 | WPMC(17)91 |
| 7. | Unrhyw fater arall | 12:40 – 12:45 | |

***** Cinio 12:45 – 13:15 *****

# CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014–2020
# PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU

**Dydd Gwener 2 Rhagfyr 2016**
**Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful**

**Nodiadau Cyfarfod**

**EITEM 1: Croeso ac ymddiheuriadau**

1. Cyflwynodd y Cadeirydd ei hun a chroesawu'r aelodau i gyfarfod Pwyllgor Monitro Rhaglenni (PMRh) Cymru. Estynnwyd croeso arbennig o gynnes i Michel Wolf, Dirprwy Bennaeth yr Uned, DG REGIO ac Iestyn Davies sy'n ymuno â PMRh fel cynrychiolydd Colegau Cymru.

2. Rhestrir y bobl a oedd yn bresennol ac ymddiheuriadau yn **Atodiad A.**

**EITEM 2: Cofnodion cyfarfod mis Medi, camau gweithredu a materion eraill sy'n codi**

3. Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod 9 Medi yn gofnod gwir a chywir. Mae cynnydd ar y pwyntiau gweithredu a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol wedi'i restru yn **Atodiad B.**

4. Roedd un aelod am iddo gael ei nodi bod y cynigion, yn dilyn cyflwyniad Dinas-ranbarth Abertawe yng nghyfarfod mis Medi PMRh, bellach yn cael eu datblygu'n fwy cyffredinol â llai o ffocws ar TGCh.

**EITEM 3: Diweddariad ar Gynnydd Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, gan gynnwys datblygiad portffolio**

<u>Trosolwg o Gynnydd</u>

5. Dywedodd Damien O’Brien, Prif Weithredwr, WEFO, wrth yr aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi croesawu newyddion am estyniad arall i warant Trysorlys EM. Byddai cyllid yr holl brosiectau strwythurol a buddsoddi y cytunir arnynt cyn i'r DU adael yr UE bellach yn dod dan gwmpas y warant.

6. Amlygwyd trosolwg o gynnydd rhaglenni ers PMRh mis Medi hefyd:

    - Neilltuwyd 61% o Gronfeydd Strwythurol. Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg, 2 Rhagfyr, i amlygu'r cyflawniad a threfnwyd i hyn fod ar gael i'r aelodau.
    - Cymeradwywyd 23 o weithrediadau'r Cronfeydd Strwythurol ers cyfarfod mis Medi (136 wedi'u cymeradwyo i gyd)
    - Roedd 55 o weithrediadau ar y cam cynllunio busnes
    - Roedd 65% o'r Rhaglen Datblygu Gwledig bellach wedi ei neilltuo
    - Roedd 16 o gynlluniau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi'u lansio

7. Amlinellwyd y digwyddiadau o bwys ers cyfarfod mis Medi PMRh:

   - Roedd WEFO wedi cynnal Digwyddiad Gwybodaeth Blynyddol llwyddiannus yn Stadiwm SWALEC yng Nghaerdydd ar 20 Hydref 2016, yr aeth 160 o gynrychiolwyr iddo.
   - Cyfarfu WEFO â chydweithwyr o'r Comisiwn Ewropeaidd ar 1 Rhagfyr 2016 ar gyfer ei Gyfarfod Adolygu Blynyddol.
   - Cyfarfu grŵp llywio Rhwydwaith Gwledig Cymru ar 10 Mehefin 2016. Oherwydd canlyniad y refferendwm, gohiriwyd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Hydref.
   - Cynhaliodd Rhwydwaith Gwledig Cymru (RhGC) weithdy LEADER i wella gwybodaeth Grwpiau Gweithredu Lleol drwy roi cymorth ac arweiniad ar LEADER a chydweithio. Cynrychiolodd Gymru hefyd yng Nghynhadledd Cydweithio Gogledd/De Iwerddon a rhannu a thrafod syniadau ar gyfer cydweithio yn y dyfodol.

8. Ymhlith y blaenoriaethau allweddol ar gyfer y cyfnod i ddod mae'r canlynol:

   - Cynyddu lefelau ymrwymo a chyflawni i'r eithaf ar draws pob rhaglen a pharhau â 'busnes fel arfer'.
   - Cwblhau'r broses o gau rhaglenni 2007-2013 yn derfynol. Parhau â gwaith ar Gynllun Gweithredu RhGC a gaiff ei drafod yng nghyfarfod nesaf grŵp llywio'r Rhwydwaith Gwledig, Chwefror 2017.
   - Parhau i adolygu opsiynau ar gyfer gwneud rhagor o addasiadau i Raglenni Gweithredol Cymru.

9. Croesawodd yr aelodau'r lefelau cynnydd ac ymrwymiad hyd yn hyn a gofyn a oedd amodau ynghlwm wrth warant ddiweddar Trysorlys EM a allai beri risg i'r gweithrediadau. Dywedodd Damien O'Brien fod yn rhaid i'r holl weithrediadau a gwmpesir gan y warant gyd-fynd â blaenoriaethau strategol a dangos gwerth am arian. Roedd yr holl weithrediadau a gymeradwywyd yng Nghymru eisoes yn cael eu hasesu ar y sail hon yn ystod y cam arfarnu. Mae perygl o golli unrhyw arian nad yw'n cael ei neilltuo o fewn cwmpas y warant cyn i'r DU adael yr UE. Felly, mae angen cynnal y momentwm presennol wrth neilltuo arian. Y brif neges i'r buddiolwyr yw pwyslais ar gyflwyno a gwario. Ni fydd ymrwymiadau o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt fel estyniadau i amserlenni cyflwyno ar gael yn gyffredinol yn ystod cyfnod y rhaglen hon.

<u>Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020</u>

10. Adroddodd Terri Thomas, Pennaeth yr Is-adran Datblygu Gwledig, fod y Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG) yn parhau i wneud cynnydd sylweddol ac amlygu'r canlynol:

    - Mae'r RhDG hefyd yn dod dan warant y Trysorlys ac, fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mae'r pwyslais ar gyflwyno wedi'i gyfleu i'r buddiolwyr er mwyn cynyddu'r arian a ddefnyddir i'r eithaf. Rôl grŵp llywio RhGC yw llywio negeseuon ar y RhDG a bydd yn cyfrannu at ymyriadau wrth fwrw ymlaen.

- Ar ôl i setliadau cyllideb gael eu hegluro, bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn cyhoeddi rhagor o gyfnodau datganiadau o ddiddordeb yn y dyfodol ar gyfer dechrau 2017.
- Ar ben hynny, ar ôl i Ysgrifennydd y Cabinet gytuno ar ddyraniadau dangosol diwygiedig, bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i'r aelodau er gwybodaeth.

11. Croesawodd ymgynghorwyr y Comisiwn Ewropeaidd y diweddariad a'r adroddiad ar sail meysydd canolbwyntio a mesurau. Yn y dyfodol, nodwyd y dylai adroddiadau gynnwys ffigurau ar gyfer symiau a neilltuwyd a gwariant/gwireddu yn unol ag adroddiadau gweithredu blynyddol.

12. Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, nododd Terri hefyd:

- Archwilir ar hyn o bryd i'r potensial i gynnal rhagor o gylchoedd Glastir ac estyn contractau. Os cytunir ar gylchoedd ychwanegol, parheir â rheolwyr contract/gwasanaeth ymgynghorol Glastir.
- O ganlyniad i gyllideb newydd Llywodraeth Cymru, bydd y RhDG yn parhau i flaenoriaethu lle y gall a gwario arian yn y meysydd mwyaf effeithiol. Mae'r addasiad diweddar i'r rhaglen wedi newid cydbwysedd defnydd UE/domestig sy'n helpu i reoli cyllidebau. Mae cyfradd gynllunio'r RhDG hefyd wedi'i diwygio fel rhan o'r addasiad hwn.

**CAM GWEITHREDU: Rhestr ddangosol o ddyraniadau ar gyfer mesurau arfaethedig i'w dosbarthu i PMRh ar ôl i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ei chwblhau.**

<u>Rhaglenni ERDF</u>

13. Dywedodd Geraint Green, Pennaeth y Gangen Ymchwil ac Arloesedd, WEFO, fod rhaglenni ERDF yn parhau i wneud cynnydd da gyda thros 50% o ymrwymiad ar draws y ddwy raglen. Fel y nodwyd yng nghyfarfod blaenorol PMRh, cyflwyno yw'r gofyniad allweddol ar gyfer gweithrediadau ac mae'r neges hon wedi'i chyfleu i'r buddiolwyr.

14. Diweddarodd Geraint yr aelodau ar weithgarwch ym mhob blaenoriaeth, gan amlygu'r canlynol:

- Mae'r portffolio Ymchwil ac Arloesedd yn parhau i ddatblygu'n dda ac mae wedi cyflawni lefel ymrwymiad uchel. Er mwyn adeiladu ymhellach ar y flaenoriaeth hon, lansiwyd cais ar 20 Hydref am gynigion arloesol a all lwyddo i droi ymchwil ac arloesedd yn gynhyrchion, yn brosesau ac yn wasanaethau masnachol newydd a gwell. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion yw 31 Ionawr 2017. Trefnir bod oddeutu £40 miliwn o arian ERDF ar gael ar gyfer y cais hwn a bu diddordeb brwd eisoes gan ystod o sectorau.

- Mae cystadleurwydd BBaCh bellach wedi'i sefydlu â phortffolio integredig. Mae Cronfa Fusnes Cymru yn datblygu'n dda gyda £3m eisoes wedi'i fuddsoddi.

- Mae blaenoriaeth Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni'n faes arloesol ac, er bod y flaenoriaeth hon yn heriol, mae rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud, er enghraifft gweithred ARBED III a gymeradwywyd yn ddiweddar. Mae cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol bach yn parhau i fod yn her a chynhaliwyd nifer o weithdai ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o arian yr UE ar gyfer y maes hwn.

- Mae Cysylltedd a Datblygu Trefol yn datblygu'n dda gyda sawl cymeradwyaeth ar gyfer gweithrediadau band eang. Mae Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud cynnydd cyson o ran gwerthuso opsiynau Cam 2 y Metro a fydd yn ceisio cymorth ERDF ac mae sgyrsiau â WEFO a Llywodraeth Cymru yn parhau.

15. Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd WEFO:

- Ar draws rhaglenni Cronfeydd Strwythurol, nid oes arwydd bod diddordeb mewn ymgysylltu â'r cronfeydd wedi lleihau. Ar gyfer Blaenoriaeth 1, disgwylir ceisiadau am fwy na'r hyn sydd ar gael ac mae llawer iawn o ddiddordeb mewn rhaglenni cysylltiedig megis Horizon 2020.
- Wrth ailddyrannu cronfeydd yn y dyfodol ar draws blaenoriaethau, ystyrir balans, dilyn targedau'r CE, galw a meysydd sy'n cyflwyno'n unol â'r proffil.
- Mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, rhoddir rhestr o weithrediadau cymeradwy i'r aelodau.

| |
|---|
| **CAM GWEITHREDU: Rhestr o weithrediadau Cronfeydd Strwythurol cymeradwy i'w rhoi i aelodau PMRh mewn cyfarfod yn y dyfodol.** |

<u>Rhaglenni ESF</u>

16. Adroddodd Jane McMillan, Pennaeth Rhaglenni ESF, WEFO, fod rhaglenni ESF yn parhau i wneud cynnydd da gan arwain at neilltuo 79% o gronfeydd yn rhaglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a neilltuo 60% yn Nwyrain Cymru, sy'n gyfwerth â lefel neilltuo gyffredinol o 76% ar draws y ddwy raglen.

17. Erbyn hyn, mae portffolio eang o weithrediadau ESF, o weithrediadau asgwrn cefn Cymru gyfan a gefnogir gan weithrediadau llai i rywfaint o weithgarwch arbenigol wedi'i deilwra sy'n cyd-fynd â'r gweithrediadau asgwrn cefn blaenoriaethol ac yn llenwi bylchau ynghylch y rhain. Erbyn hyn mae gan bob maes Blaenoriaeth ac Amcan Penodol bortffolio cytbwys o weithrediadau er mwyn cyflawni ar gyfer yr amrywiaeth o grwpiau cleientiaid targed sy'n cymryd rhan a'r canlyniadau targed. Mae nifer o weithrediadau asgwrn cefn wedi'u hestyn, megis Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau, ac mae rhai gweithrediadau newydd yn dal i gael eu datblygu. Mae angen rhagor o waith er mwyn nodi ymyriadau posibl dan Flaenoriaeth Trechu Tlodi Dwyrain Cymru ac mae WEFO yn gweithio gyda Thimau Ymgysylltu Rhanbarthol er mwyn mynd i'r afael â hyn.

18. Canmolodd aelodau WEFO ar y lefelau neilltuo a gyflawnwyd yn rhaglenni ESF a gofynasant a oedd ymyriadau arloesol yn cael eu datblygu er mwyn ymgysylltu â

chyfranogwyr economaidd anweithgar neu'r rhai anoddaf eu cyrraedd. Dywedodd WEFO fod rhai gweithrediadau arloesol mewn gweithrediadau mwy, er enghraifft gall gweithrediad REACT roi cymorth i gyfranogwyr sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod byr. Mae'r rhaglenni wedi adeiladu ar lwyddiannau'r rhaglenni blaenorol. Fodd bynnag, mae cwmpas o hyd ar gyfer gweithgarwch arloesol ar raddfa lai.

19. Gofynnodd un aelod a yw WEFO yn gallu monitro swm yr arian y mae gweithrediadau'n ei wario ar weinyddiaeth yn hytrach na chyflawni. Dywedodd WEFO y bydd gan weithrediadau gostau ar gyfer staff a'i bod yn bwysig bod ganddynt y gallu i gynnal gweithrediadau'n effeithiol a chan gydymffurfio â gofynion y CE. Yn ystod y cam arfarnu, creffir ar gostau'n ofalus er mwyn sicrhau gwerth am arian ac, mewn llawer o achosion, gwarir cyfran fawr o gyllid drwy gaffael. Ar gyfer rhai gweithrediadau, gall fod yn anodd monitro union symiau'r costau gweinyddu oherwydd trefniadau arian cyfatebol neu am fod model cyflawni penodol ac ymyriadau gwahanol yn gofyn am adnoddau gwahanol, gan ddibynnu ar y cymhlethdod. Cyfyngir costau Timau Awdurdod Rheoli ac Ymgysylltu Rhanbarthol i 2% er mwyn rheoli'r gyllideb yn ofalus.

20. Hefyd, trafododd aelodau'r model cyflawni caffael ac i ba raddau mae'r model hwn yn rhoi gwerth am arian a chanlyniadau gwell. Nododd WEFO fod llawer o waith wedi'i wneud ar fodelau cyflawni a chyflawni drwy gaffael, nid yn unig am ei fod yn un o ofynion y CE ond am mai dyma'r model mwyaf buddiol sy'n dangos gwerth am arian ac yn helpu i gynnwys y sector preifat yn y rhaglenni.

**EITEM 4: Addasu'r Rhaglen Cronfeydd Strwythurol**

21. Rhoddodd Rob Halford, Pennaeth Cynllunio a Strategaeth, WEFO, wybod i'r aelodau fod €4,814,104 ychwanegol wedi'i ddyrannu i raglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o ganlyniad i addasiad canol tymor gan y Comisiwn Ewropeaidd i ddyraniadau cenedlaethol y Polisi Cydlyniant. Wrth ddyrannu'r cronfeydd ychwanegol hyn, mae'n rhaid i WEFO barchu gofynion crynodi thematig amrywiol y CE. Wrth ystyried hyn, yn ogystal â'r lefelau neilltuo presennol a phosibl, mae WEFO yn cynnig y dylid cyfeirio'r adnoddau ychwanegol tuag at feysydd canlynol rhaglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ERDF ac ESF:

- Blaenoriaeth 1 ERDF - Ymchwil ac Arloesedd (Amcan Thematig 1 - Cryfhau ymchwil, datblygiad technolegol ac arloesedd), a;
- Blaenoriaeth 2 ESF - Sgiliau (Amcan Thematig 1 - Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes).

22. Trafododd yr aelodau'r addasiad a **chytuno** y dylid dyrannu'r adnoddau ychwanegol i flaenoriaeth 1 ERDF a blaenoriaeth 2 ESF fel y cynigiwyd.

23. Nododd WEFO y bydd yr addasiadau'n golygu bod angen diwygiadau i Gytundeb Partneriaeth y DU. Hefyd, mae potensial ar gyfer rhagor o addasiadau sylweddol i'r rhaglen a gyflwynir i PMRh ddechrau 2017. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y

byddai tablau ariannol diwygiedig sy'n adlewyrchu'r dyraniadau ychwanegol y cytunwyd arnynt yn cael eu dosbarthu i PMRh ar ôl y cyfarfod.

| **CAM GWEITHREDU: Tablau ariannol diwygiedig sy'n adlewyrchu'r dyraniadau ychwanegol y cytunwyd arnynt i'w dosbarthu i PMRh.** |
| --- |

**EITEM 5: Diweddariad ar Addasu'r RhDG**

24. Rhoddodd Terri Thomas ddiweddariad ar yr Addasiad RhDG a drafodwyd ac y cytunwyd arno yng nghyfarfod PMRh ym mis Medi 2016. Mae'r addasiad bellach wedi'i gyflwyno i'r CE. Trefnir rhagor o drafodaethau â'r CE ar gyfer y Flwyddyn Newydd a gobeithir y gellir cytuno ar yr addasiadau'n ffurfiol erbyn mis Mawrth 2017. Erbyn hyn, gellir datblygu'r gallu i ddefnyddio grantiau bach, a gynhwysir yn yr addasiad.

**EITEM 6: Newidiadau i Feini Prawf Dethol y RhDG**

25. Cyflwynodd Terri Thomas y papur a dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn cynnig addasu'r meini prawf dethol ar gyfer grantiau bach y cynllun grant cynhyrchu cynaliadwy. Bydd y newid yn caniatáu defnyddio grantiau bach ar sail awtomataidd, drwy ddull yn seiliedig ar anghenion ar gyfer busnesau a'i nod fydd cadw'r broses mor syml ag y bo modd.

26. Croesawodd ymgynghorwyr y CE y papur a'r tabl cydberthynas/meini prawf dethol diwygiedig arfaethedig. Hefyd, croesawyd tynnu'r meini prawf dethol, 'cymryd rhan mewn digwyddiad cyn ymgeisio'. Fodd bynnag, nodwyd pryder ynghylch defnyddio 9 maen prawf ESI. Gofynnwyd i fersiwn diweddar o Atodiad 2, sy'n dangos y meini prawf dethol cyffredinol, gael ei ddarparu i PMRh yn y cyfarfod nesaf, er gwybodaeth.

27. Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, dywedodd Terri fod grantiau bach/cynlluniau cymunedol bach yn rhaglen LEADER er nad oes y fath gynlluniau yn rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol.

28. Nododd yr aelodau'r newid i'r meini prawf dethol fel yr amlinellir yn Atodiad 1 y papur.

**EITEM 7: Angen Cytundeb: Gweithgareddau ERDF y tu allan i'r ardal**

29. Cyflwynodd Geraint Green bapur ar weithgareddau ERDF y tu allan i'r ardal ac esbonio y ceisir cytundeb gan PMRh i gefnogi gweithrediadau meithrin gallu ymchwil a gefnogir gan Flaenoriaeth 1, Amcan Penodol 1.1. yn benodol, gweithrediadau meithrin gallu ymchwil sy'n cynnwys seilwaith Cymru gyfan, yn ogystal â gwasanaethau cefnogi sy'n arwain at ychydig o wariant a buddion trawsffiniol.

30. Yr ystyriaeth allweddol yw y bydd y buddion o'r math hwn o weithrediad yn llifo i ranbarth y rhaglen sy'n ei gefnogi. Mae ond yn berthnasol os lleolir seilwaith mewn un ardal raglennu ac mae angen gweithgareddau ymchwil neu

weithgareddau cymorth ymchwil mewn ardal arall i'w ddefnyddio - gall hyn arwain at wariant y tu allan i'r ardal neu sgil-fuddiannau.

31. Trafododd yr aelodau'r papur a **chytuno** y dylid cefnogi gweithgareddau meithrin gallu ymchwil y tu allan i'r ardal a gefnogir gan Flaenoriaeth 1, Amcan Penodol 1.1.

**EITEM 8: Strategaeth Monitro a Gwerthuso – Diweddariad ar Gynnydd**

32. Rhoddodd Kathryn Helliwell, Uwch-swyddog Ymchwil, WEFO, ddiweddariad ar y Strategaeth Monitro a Gwerthuso ac amlygu'r canlynol:

- Roedd PMRh wedi dangos diddordeb o'r blaen ym mherfformiad Cymru mewn perthynas â chynhyrchiant o'i chymharu â rhanbarthau eraill yn y DU. Mae Cymorth Technegol wedi'i ddefnyddio i ariannu astudiaeth fach i ymchwilio i hyn a rhennir y canfyddiadau ag aelodau mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Cynhaliwyd rhag-asesiad o Offerynnau Ariannol ddechrau 2016 a rhennir y canfyddiadau â PMRh pan fydd yr adroddiad terfynol wedi'i gwblhau.
- Blaenoriaeth allweddol i'r Tîm Strategaeth ar hyn o bryd yw gwerthusiad terfyn rhaglen RhDG 2007-2013 y mae'n rhaid ei gwblhau a'i gyflwyno i'r Comisiwn erbyn 31 Rhagfyr 2016.

33. Trafododd yr aelodau'r papur a gofyn a fydd y gwerthusiad cynlluniedig o fuddsoddiadau seilwaith yn mynd i'r afael ag effeithiau hirdymor a'r effaith ar fusnes. Yn ychwanegol, gofynnwyd a fydd y gwerthusiad yn ystyried effeithiau amgylcheddol y buddsoddiadau seilwaith. Dywedodd Kathryn fod manyleb y gwerthusiad yn cael ei datblygu ac mai diben y gwaith yw cyflawni gwerthusiad tymor hwy i asesu a yw'r effeithiau a fwriadwyd wedi'u cyflawni. Mae effeithiau amgylcheddol yn faes a fyddai'n cael ei ystyried a gellir rhannu manyleb ddrafft y gwerthusiad hwn â'r aelodau mewn cyfarfod yn y dyfodol. Hefyd, dywedodd Kathryn y bydd canfyddiadau cychwynnol y rhag-werthusiad o offerynnau ariannol yn cael eu hystyried yn fanwl gan WEFO ac y byddai dull addas yn cael ei ddatblygu.

**CAM GWEITHREDU: Drafft o'r fanyleb ar gyfer gwerthuso'r buddsoddiadau seilwaith a wnaed dan Raglenni ERDF 2000-2006 a 2007-2013 i'w rannu â PMRh mewn cyfarfod yn y dyfodol.**

**EITEM 9: Gwerthusiad terfyn rhaglen RhDG**

34. Cafwyd cyflwyniad gan Dylan Bradley a Berkeley Hill, AgraCEAS, ar werthusiad terfyn rhaglen RhDG 2007-2013. Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r gwerthusiad yn asesu cyflawniadau RhDG 2007-13 ac edrychir arnynt yn ôl pob Mesur RhDG (a adwaenir yn fwy cyffredinol fel Cynlluniau) a phob Echel Rhaglen gyffredinol.

- Cynhelir y gwerthusiad gyda chwestiynau penodol y penderfynwyd arnynt gan y Comisiwn Ewropeaidd, cwestiynau gwerthuso cyffredin a chwestiynau sy'n benodol i'r rhaglen. Mae 128 o gwestiynau y mae angen eu hateb.
- Rôl gwerthuswyr terfyn rhaglen yw rhoi barn annibynnol am gyflawniadau a helpu hefyd wrth weithredu gwersi a ddysgwyd mewn cynlluniau parhaus.
- Mae gwerthusiad terfyn rhaglen yn werthusiad crynodol sy'n cymryd tystiolaeth sydd eisoes yn bodoli.
- Cwblhawyd yr adroddiad cychwynnol ar 1 Mehefin 2016. Mae tystiolaeth eilaidd bellach yn cael ei choladu a chaiff y gwerthusiad terfynol ei anfon i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn diwedd 2016.

**EITEM 10: Trefniadau Pontio'r UE**

35. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau wahanu'n 3 gweithgor. Trafododd aelodau PMRh 3 chwestiwn ar drefniadau pontio'r UE a'r Polisi Economaidd Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl 2020.  Amlygwyd y pwyntiau allweddol canlynol gan yr aelodau:

**C1: Beth yw nodweddion mwyaf llwyddiannus y trefniadau presennol/beth ddylem ei gadw?**

- Mae rhaglenni amlflwydd (7-10 mlynedd) a ariennir yn ganolog i'r gallu i gynllunio a gweithredu portffolios buddsoddi.
- Mae'r rhaglenni ESI presennol wedi gweithio i gyfyngu/lleihau'r fiwrocratiaeth ynghylch gwneud cais am gyllid.  Dylai hyn barhau mewn unrhyw raglenni newydd.
- Dylai Cymru barhau i gadw/‘clustnodi’ arian ar gyfer rhaglenni economaidd rhanbarthol, blaenoriaethu unrhyw gyllid a gwneud penderfyniadau gwariant.
- Dylid parhau â dull o ddyrannu cyllid sy'n seiliedig ar anghenion/tystiolaeth, yn ogystal â phwyslais cryf ar y Themâu Trawsbynciol.
- Mae rhaglenni ESI bob amser wedi canolbwyntio ar gefnogi pobl mewn ffordd integredig – angen datblygu'r dull hwn neu adeiladu arno mewn unrhyw bolisïau newydd.

**C2**: **Beth yw'r cyfleoedd newydd/beth ddylid ei wneud yn wahanol?**

- Mwy o hyblygrwydd mewn rhanbarthau.  Gallai rhanbarthau benderfynu ar yr anghenion unigol yn eu hardaloedd gan ddefnyddio dull yn seiliedig ar dystiolaeth i nodi angen a datblygu strategaethau.
- Cyfle i feddwl o'r newydd: comisiynu ymchwil i'r hyn sydd wedi gweithio'n dda mewn rhanbarthau/gwledydd eraill a defnyddio'r dystiolaeth hon i ddatblygu rhaglenni/prosiectau yng Nghymru.
- Potensial i dargedu meysydd sydd, yn hanesyddol, wedi bod yn anealladwy neu'n gyfyngedig megis tai, ymyriadau sydd wedi'u hanelu at y blynyddoedd cynnar/plant ifanc, lle mae tystiolaeth i ddangos y gall ymyriadau yn y meysydd hyn gael effaith sylweddol.
- Sicrhau bod unrhyw ddull newydd yn rhoi manteision i bob ardal yng Nghymru, boed yn ardal wledig neu drefol.

- Potensial i symud i ffwrdd o fesurau CDG.
- Mynediad haws i gyllid a chyflawni cydbwysedd gwell o ran mynediad y sector preifat/cyhoeddus i gronfeydd.

**C3: Beth yw'r dulliau gorau ar gyfer cynnwys yr ystod lawn o bartneriaid a chymunedau yn y trafodaethau hyn?**

- Mae brwdfrydedd dros gynnwys partneriaid wrth ddatblygu polisi economaidd rhanbarthol newydd yng Nghymru.
- Defnyddio'r strategaethau presennol sydd eisoes ar waith, h.y. grwpiau rhanddeiliaid/buddiolwyr ac ati.
- Ymgysylltu â'r gymuned/grwpiau lleol/byrddau sector cyhoeddus.
- Symleiddio cyngor i Weinidogion.

**EITEM 8: UNRHYW FATER ARALL**

36. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau nodi'r Themâu Trawsbynciol: Trechu Tlodi a'r Adroddiad Blynyddol a diolchodd i'r aelodau am eu cyfraniad i'r trafodaethau yn y cyfarfod.

37. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 24 Chwefror 2017.

**Ysgrifenyddiaeth PMRh**
**Rhagfyr 2016**

**Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014 - 2020 PMRh Cymru**
**2 Rhagfyr 2016**
**Swyddfa Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful**

**Cadeirydd –** Julie Morgan (AC)

***Enwebir yr aelodau ar sail gynrychioliadol, o bartneriaid a chyrff statudol:***

| | |
|---|---|
| Phil Fiander | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) |
| Dr David Blaney | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| Rebecca Williams | *Dirprwy ar gyfer Karen Anthony* - Economi Wledig (Cymdeithas Siroedd, Tir a Busnesau) |
| Y Cynghorydd Ronnie Hughes | Llywodraeth Leol (CLlLC) |
| Rudi Plaut | Busnes a Menter (Commerce Cymru) |
| Iestyn Davies | Addysg Bellach (Colegau Cymru) |
| Rhian Jardine | Cynaliadwyedd Amgylcheddol (Cyfoeth Naturiol Cymru) |
| Lowri Gwilym | Llywodraeth Leol (CLlLC) |
| Charlotte Priddy | Undeb Amaethwyr Cymru (UAC) |
| Arfon Williams | Cyrff Anllywodraethol Amgylcheddol (Cyswllt Amgylchedd Cymru/RSPB) |
| Tom Whyatt | Busnes a Menter (Diwydiant Cymru) |
| Peter Crews | Undeb Llafur (TUC Cymru) |
| Julie Cook | TUC Cymru |
| Lowri Owain | LEADER |
| Duncan Hamer | Llywodraeth Cymru (Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol) |
| Scott Morgan | *Dirprwy ar gyfer Cath Jenkins* – Llywodraeth Cymru |
| Matthew Quinn | Llywodraeth Cymru (Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol) |

***Aelodau wedi'u dethol drwy'r broses penodiadau cyhoeddus:***

| |
|---|
| Beth Winkley |
| Sian Price |
| Yr Athro Richard B. Davies |
| David (Dai) Davies |

***Ymgynghorwyr:***

| | |
|---|---|
| Guus Muijzers | Comisiwn Ewropeaidd, Swyddog Desg y DU sy'n gyfrifol am Raglenni 2014-2020, DG Regio |
| Joanna Gawrylczyk-Malesa | Comisiwn Ewropeaidd, Swyddog Desg ar gyfer Rhaglenni ESF, DG Employ |
| Michel Wolf | Dirprwy Bennaeth yr Uned, DG REGIO |

**Awdurdodau Rheoli Rhaglenni:**

**Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**

| | |
|---|---|
| Damien O'Brien | Prif Weithredwr, WEFO (ERDF, ESF) |
| Terri Thomas | Pennaeth yr Is-adran Datblygu Gwledig |
| Rob Halford | Pennaeth Cynllunio a Strategaeth, WEFO |
| Peter Ryland | Dirprwy Gyfarwyddwr, Perfformiad Rhaglenni a Chyllid (ERDF, ESF) |
| Geraint Green | Pennaeth y Gangen Ymchwil ac Arloesedd, WEFO - *Dirprwy ar gyfer Sue Price* |
| Jane McMillan | Pennaeth Rhaglenni ESF |
| Kathryn Helliwell | Uwch-swyddog Ymchwil, WEFO |
| Tiffany Edmunds | Ysgrifenyddiaeth |
| Rhiannon Clancy | Ysgrifenyddiaeth |

***Cyflwynwyr Gwadd:***

| | |
|---|---|
| Dylan Bradley | AgraCEAS |
| Berkeley Hill | AgraCEAS |

**YMDDIHEURIADAU**

| | |
|---|---|
| Dr Grahame Guilford | Penodai Cyhoeddus |
| Derek Walker | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Yr Athro David Shepherd | Addysg Uwch Cymru |
| Joy Kent | Penodai Cyhoeddus |
| Cath Jenkins | Llywodraeth Cymru (Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol) |
| Andrew Slade | Cyfarwyddwr, yr Adran Amaeth, Bwyd a'r Môr |
| Sue Price | Pennaeth Rhaglenni ERDF, WEFO |
| Marek Beran | Comisiwn Ewropeaidd, DG AGRI |
| Jocelyn Llewhellin | Canolfan Byd Gwaith |

| Dyddiad y cyfarfod | Cam Gweithredu a Geisiwyd | Y Sefyllfa Ddiweddaraf |
|---|---|---|
| 09 Medi 2016 | Fersiwn ddiwygiedig wedi'i chydgrynhoi o feini prawf dethol EAFRD i'w dosbarthu i PMRh. | Atodiad 2 o bapur WPMC(16)85 yn cyfeirio ato. Ar ben hynny, dosbarthwyd WPMC(16)M77 Atodiad diwygiedig 1 i'r aelodau ar 18 Tachwedd 2016 gyda phapurau PMRh 2 Rhagfyr. |
| 09 Medi 2016 | Aelodau i ddarparu sylwadau ychwanegol ar fformat PMRh yn y dyfodol a phapur trefniadau i Ysgrifenyddiaeth PMRh. | Ni chafwyd rhagor o sylwadau. |
| 02 Rhagfyr 2016 | Rhestr ddangosol o ddyraniadau ar gyfer mesurau arfaethedig i'w dosbarthu i PMRh ar ôl i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ei chwblhau | Ar droed – ar ôl i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ei chymeradwyo, caiff yr ymrwymiadau dangosol eu dosbarthu i PMRh. |
| 02 Rhagfyr 2016 | Rhestr o weithrediadau Cronfeydd Strwythurol cymeradwy i'w rhoi i aelodau PMRh mewn cyfarfod yn y dyfodol. | Rhestr o weithrediadau Cronfeydd Strwythurol wedi'i dosbarthu i'r aelodau gyda phapurau PMRh ar 10 Chwefror 2017 |
| 02 Rhagfyr 2016 | Tablau ariannol diwygiedig sy'n adlewyrchu'r dyraniadau ychwanegol y cytunwyd arnynt i'w dosbarthu i PMRh | Tablau ariannol diwygiedig wedi'u dosbarthu i aelodau PMRh ar 16 Rhagfyr 2016. |
| 02 Rhagfyr 2016 | Drafft o'r fanyleb ar gyfer gwerthuso'r buddsoddiadau seilwaith a wnaed dan Raglenni ERDF 2000-2006 a 2007-2013 i'w rannu â PMRh mewn cyfarfod yn y dyfodol. | Mae'r Tîm Strategaeth wrthi'n llunio'r fanyleb ddrafft. |

**Trafodaeth Pwyllgor Monitro'r Rhaglen: Dyfodol Polisi Rhanbarthol yng Nghymru**

**Y Cefndir**

Cynhaliodd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen (y Pwyllgor) drafodaeth gychwynnol ar ddyfodol polisi datblygu economaidd rhanbarthol yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr 2016. Roedd yn canolbwyntio ar nodweddion o'r rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd presennol sy'n gweithio'n dda ac y gellid eu cadw wrth lunio unrhyw raglenni olynol, ynghyd â chyfleoedd i wneud pethau'n wahanol.

Cyflwynwyd adborth ar drafodaethau'r Pwyllgor i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, ac fe ddefnyddiwyd y sylwadau wrth ddatblygu Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar yr UE, *Diogelu Dyfodol Cymru*. Cyfarfu'r Prif Weinidog hefyd â Phrif Weinidog y DU ar 30 Ionawr ac fe gafodd ei sicrhau ganddi na fyddai unrhyw ymgais i gymryd cyfrifoldeb yn ôl dros gymwyseddau datganoledig yn sgil Brexit. Cadarnhawyd hyn ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU ar Brexit ar 2 Chwefror, lle ceir ymrwymiad na fydd y gweinyddiaethau datganoledig yn colli'r hawl i wneud penderfyniadau sydd ganddynt ar hyn o bryd. Ar ben hynny, mae'n ymrwymo i fanteisio ar y cyfle i ddatganoli rhagor o benderfyniadau wrth i'r pwerau ddod yn ôl i'r DU. Pwysleisir hefyd yr angen i ystyried cael rhywbeth yn lle'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd y tu allan i'r UE.

**Y Camau Nesaf**

Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i weithio gyda'i phartneriaid a'i rhanddeiliaid i gyflwyno weledigaeth gadarnhaol o ran sut y dylai polisi rhanbarthol ddatblygu yng Nghymru yn y dyfodol, gyda chefnogaeth ariannol gan Lywodraeth y DU sy'n cyfateb i'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

Caiff ei gydnabod bod gweithio mewn partneriaeth yn fantais allweddol i raglenni presennol y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Bydd hyn yn parhau i fod yn elfen hanfodol wrth lunio dull newydd i Gymru, er mwyn ymateb i gyfleoedd a heriau newydd y tu allan i'r UE.

I barhau â'r gwaith hwn fe gynhaliodd y Grŵp Cynghori ar Ewrop, a grëwyd i gynghori Llywodraeth Cymru, drafodaeth gychwynnol ar ddyfodol polisi rhanbarthol yng Nghymru yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror. Mae'r papur a drafodwyd gan y Grŵp bryd hynny wedi'i amgáu, ac mae hefyd yn adlewyrchu'r trafodaethau a gafwyd yn nghyfarfod y Pwyllgor fis Rhagfyr.

**Cwestiynau i'w trafod**

Gwahoddir yr aelodau i ystyried cynnwys y papur amgaeedig. Bydd cyfle i ddylanwadu ar feddylfryd Llywodraeth Cymru yn y maes hwn drwy drafodaeth mewn Cyfarfod Llawn gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, cyn i'r Llywodraeth ddechrau trafod yn ehangach yn hwyrach eleni.

Croesewir sylwadau ar bob maes sy'n bwysig i'r aelodau a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli. Mae'r cwestiynau i'r Grŵp Cynghori ar Ewrop i'w gweld isod fel y gall yr aelodau eu hystyried cyn cyfarfod y Pwyllgor.

**Trefniadau pontio**

Nid yw'n glir eto pa drefniadau pontio fydd yn cael eu rhoi yn eu lle i reoli ymadawiad y DU â'r UE, os bydd rhai o gwbl. Mae *Diogelu Dyfodol Cymru* yn galw ar Lywodraeth y DU i gytuno’n gynnar ar gyfnod pontio, ar ôl tanio Erthygl 50, er mwyn lleddfu’r ymadawiad â'r UE. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n parhau i gydweithio â'r swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU i amlygu'r cymhlethdodau a'r heriau amrywiol sy'n gysylltiedig â chynnal rhaglenni’r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn effeithiol yn ystod y cyfnod hwn o negodi ac ymadael. Efallai yr hoffai aelodau'r Pwyllgor nodi unrhyw heriau neu bryderon penodol sydd ganddynt mewn perthynas â hyn.

**Cwestiynau i'r Grŵp Cynghori ar Ewrop**

1. A yw'r egwyddorion craidd (tudalen 6) a nodir yn y papur yn briodol i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi rhanbarthol ar gyfer y dyfodol yng Nghymru?

2. Pa drefniadau partneriaeth y gellid eu rhoi yn eu lle i ddatblygu a gweithredu'r polisi rhanbarthol mwyaf effeithiol ar gyfer y dyfodol?

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020**

**ADRODDIAD MONITRO’R RHAGLENNI**

**Trosolwg**
Mae’r papur hwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd: Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, ERDF Gorllewin Cymru a’r Cymoedd a Rhaglenni ESF a Rhaglenni ERDF ac ESF Dwyrain Cymru. Ceir adroddiadau ar gronfeydd penodol yn Atodiadau 1 i 3. Mae’r holl ddata’n gyfredol ar15/01/2017. Y cyfraddau cynllunio a ddefnyddir yn yr adroddiad yw £1:€1.25 ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a £1:€1.18 ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae cyfeiriadau at gyfarfod blaenorol Pwyllgor Monitro’r Rhaglenni drwy’r ddogfen gyfan yn cyfeirio at y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2016.

**Y sefyllfa gyffredinol**

- Mae 148 o weithrediadau gwerth £2,500m (gan gynnwys arian yr UE gwerth £1,324m), yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd gan y Cronfeydd Strwythurol a byddant yn cynorthwyo dros 41,500 o fusnesau ac yn rhoi cymorth hyffordiant/cyflogaeth i fwy na 396,800 o bobl.
- Mae Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 yn cefnogi cyfanswm o 6,877 o gontractau amaeth-amgylcheddol ar hyn o bryd, sy’n cwmpasu 676,469 hectar ynghyd â 553 o gontractau organig newydd sy’n cwmpasu 68,440 hectar. Crëwyd bron108ha o goetir newydd trwy Glastir – Creu Coetir

**Cynnydd ariannol**


**Neilltuo cyllid**

- O dan Raglenni ERDF, mae cyfanswm o £1,361m wedi cael ei neilltuo ar hyn o bryd (76% o gyfanswm y dyraniad), y mae £711m ohono yn arian yr UE (63% o ddyraniad yr UE).
- O dan Raglenni ESF, mae cyfanswm o £1,139m wedi cael ei neilltuo ar hyn o bryd (95% o gyfanswm y dyraniad), y mae £613m ohono yn arian yr UE (76% o ddyraniad yr UE).
- O dan Gynllun Datblygu Gwledig 2014-2020, mae cyfanswm o £563m (59% o werth y rhaglen) wedi ei neilltuo (gan gynnwys cymeradwyaethau a chylchoedd datganiadau o ddiddordeb), y mae £348m ohono yn arian yr UE.

**Gwariant**


- Mae tua £130m o gyfanswm y gwariant wedi'i gofnodi o dan Raglenni ERDF, y mae £60m ohono yn arian yr UE.
- Mae tua £122m o gyfanswm y gwariant wedi'i gofnodi o dan Raglenni ESF, y mae £81m ohono yn arian yr UE.
- Mae gwariant o gwmpas £45m wedi'i gofnodi yng Nghynllun Datblygu Gwledig 2014-2020, y mae £34m ohono yn arian yr UE.

**Siart 1: Cyfanswm Gwariant Rhaglenni a Neilltuwyd / a Wariwyd**




Ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 mae Cyfanswm Gwariant y Rhaglen yn cynnnwys Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig ynghyd â chyllid domestig Llywodraeth Cymru. Ar gyfer y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol mae'n cynnwys ERDF neu ESF ynghyd ag arian cyfatebol.

**Siart 2: Cronfeydd yr UE a Neilltuwyd / a Wariwyd (ERDF / ESF / EAFRD)**



## Data ar Allbynnau

| Dangosydd | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yn hyn |
|---|---|---|---|
| **ERDF** | | | |
| Mentrau a gefnogir | 45,512 | 41,586 | 5,052 |
| *o rhain* | | | |
| Mentrau a grëwyd | 7,400 | 10,035 | 1,620 |
| Cynydd cyflogaeth yn y mentrau a gefnogir | 26,980 | 32,029 | 2,292 |
| Maint o gyllid ymchwil a sicrhawyd | £230m | £116m | £32m |
| Cynnydd yn lefel allforio | £233m | £215m | £10m |
| Capasiti ychwanegol o gynhyrchu ynni adnewyddadwy | 28 | 1 | - |
| Nifer y cartrefi â dosbarthiad defnydd o ynni gwell | 9,700 | 3,825 | - |
| Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a grëwyd neu sydd wedi gwella | 2,920,000 vehicle km | - | - |
| **ESF** | | | |
| Pobl a gynorthwyir | 434,100 | 396,876 | 74,358 |
| *o rhain* | | | |
| Pobl ifanc a gynorthwyir | 150,000 | 101,043 | 13,451 |
| Pobl a gefnogir i gael gwaith | 40,642 | 49,035 | 1,488 |
| Pobl sy.n ennill cymwysterau | 194,633 | 225,005 | 28,749 |
| **EAFRD** | | | |
| Ardal ffisegol a gefnogir | 688,000 | 528,010 | 676,469 |
| Pobl dan hyfforddiant | 13,000 | 13,500 | - |
| Taliadau amaethyddol a gefnogir | 3,773 | 542 | 553 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 15/01/2017

**<u>Atodiadau</u>**
**Atodiad 1: Diweddariad ERDF**
**Atodiad 2: Diweddariad ESF**
**Atodiad 3: Diweddariad WGRC-RDP 2014-2020**
**Atodiad 4: Cronfeydd Strwythurol: Rhestr gweithrediadau a gymeradwywyd**

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

### Adran 1: Rhaglenni ERDF: Neilltuo cyllid

Mae'r adran hon yn nodi'n fanwl y cynnydd ariannol presennol dan Raglenni ERDF, gan gynnwys trosolwg o'r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth.

Dengys Tabl 1 nifer Grantiau'r UE a'r symiau a neilltuwyd ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy dan Raglenni ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru, ynghyd â Grantiau'r UE y gellid eu neilltuo o bosibl os bwriedir bwrw ymlaen â Gweithrediadau ar y cam Cynllunio Busnes a'r cam Cyn Cynllunio

**Tabl 1: Neilltuo Grant yr UE: Cam Cymeradwy, Cam Cynllunio Busnes a Cham Cyn Cynllunio**

£ Miliynau

| Rhaglen / Echel Blaenoriaeth | Gweithrediadau | | | Ymrwymiad Grant UE | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymeradwywyd | Cynllunio Busnes | Cynllunio o flaen llaw | Dyraniad* | Cymeradwywyd | Cynllunio Busnes | Cynllunio o flaen llaw |
| **ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | | | | | | | |
| Blaenoriaeth 1 | 18 | 1 | 0 | 239.5 | 204.1 | 5.0 | - |
| Blaenoriaeth 2 | 7 | 0 | 0 | 166.4 | 146.4 | - | - |
| Blaenoriaeth 3 | 5 | 5 | 5 | 136.7 | 36.5 | 45.4 | 61.7 |
| Blaenoriaeth 4 | 13 | 8 | 2 | 401.0 | 197.3 | 68.9 | 88.0 |
| Blaenoriaeth 5 | 7 | 0 | 0 | 19.3 | 19.0 | - | - |
| **Cyfanswm** | **50** | **14** | **7** | **962.8** | **603.3** | **119.3** | **149.7** |
| **ERDF Dwyrain Cymru** | | | | | | | |
| Blaenoriaeth 1 | 8 | 0 | 0 | 71.3 | 60.2 | - | - |
| Blaenoriaeth 2 | 7 | 0 | 1 | 31.9 | 31.6 | - | 10.0 |
| Blaenoriaeth 3 | 1 | 0 | 0 | 17.9 | 3.6 | - | - |
| Blaenoriaeth 4 | 2 | 0 | 1 | 38.3 | 9.3 | - | 28.9 |
| Blaenoriaeth 5 | 6 | 0 | 0 | 3.3 | 2.9 | - | - |
| **Cyfanswm** | **24** | **0** | **2** | **162.6** | **107.5** | **-** | **38.9** |
| **Cyfanswm ERDF** | **74** | **14** | **9** | **1,125.5** | **710.8** | **119.3** | **188.6** |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

* Dyraniad grant UE yn seiliedig ar £1:€1.25

### Diweddariad Cyffredinol o'r Rhaglenni

Mae'r ddwy Raglen ERDF yn parhau i wneud cynnydd da gyda 74 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo gan neilltuo ychydig dros £710 miliwn mewn arian grant, sef ychydig dros 63% o werth y rhaglenni a chynnydd o bron £160 miliwn mewn arian grant ers cyfarfod PMRh ym mis Rhagfyr 2016.   Mae'r gweithrediadau wedi'u cymeradwyo ym mhob Blaenoriaeth yn y ddwy raglen.

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

## Adran 2: Cynnydd yn ôl Echel Blaenoriaeth
## Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd

| Amcan Penodol | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | |
| AP1.1: Adnoddau Ymchwil | 8 | £95.8m | £96.3m | 101% | 4 | £26.9m | £21.9m | 81% |
| AP1.2: Masnacheiddio | 10 | £143.7m | £107.9m | 75% | 4 | £44.4m | £38.3m | 86% |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 1** | **18** | **£239.5m** | **£204.2m** | **85%** | **8** | **£71.3m** | **£60.2m** | **84%** |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

## Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (PMRh)

| Gweithrediadau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ERDF | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ERDF |
| IMPACT (Swansea University) | £35.0m | £17.4m | | |
| SPARC II (Swansea University) | £7.2m | £4.8m | | |
| Institute for Compound Semiconductor (Cardiff University) | | | £32.7m | £13.1m |
| Supercomputing Wales (Cardiff University) | £8.0m | £5.3m | £6.7m | £3.7m |

Mae'r portffolio Ymchwil ac Arloesedd yn parhau i ddatblygu'n dda gyda bron 85% o'r adnoddau sydd ar gael wedi'u neilltuo yn y ddwy raglen. Bu'r ffocws hyd yma ar ddatblygu a chymeradwyo gweithrediadau strategol a/neu brif weithrediadau a fydd yn cyflawni elfennau allweddol y portffolio Ymchwil ac Arloesedd; y nod yw cefnogi newid sylweddol yn yr economi wybodaeth yng Nghymru. Ceir amrywiaeth dda o fuddsoddiadau dan Amcanion Penodol (meithrin gallu ymchwil a masnacheiddio gwaith ymchwil a datblygu).

Mae'r rhan fwyaf o'r portffolio bellach ar waith gydag amrywiaeth dda o fuddsoddiadau dan Amcanion Penodol (meithrin gallu ymchwil a masnacheiddio gwaith ymchwil a datblygu). Bydd yr aelodau'n ymwybodol o'r cais diweddar am gynigion arloesol a all droi ymchwil ac arloesedd yn gynhyrchion, yn brosesau ac yn wasanaethau masnachol newydd a gwell yn llwyddiannus a ddaeth i ben ar 31 Ionawr 2017. Yr arwyddion cynnar yw i'r cais fod yn llwyddiannus, gyda 45 o gynigion wedi'u derbyn (31 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 14 yn Nwyrain Cymru) gan amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys AU/AB, Sector Preifat a Llywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd yr holl arian sy'n weddill yn cael ei neilltuo.

Cydnabyddir bod natur tymor canolig a hirdymor buddsoddiadau ymchwil ac arloesi yn golygu y bydd yn cymryd amser i'w heffaith ddangos. Serch hynny mae cyflawniadau'n dechrau dod trwodd o'r buddsoddiadau blaenorol. Mae llwyddiant y cais am gynigion arloesol yn awgrymu y bydd dangosyddion 1.2 yn gwella yn y blynyddoedd sydd i ddod.

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

## Tabl 2: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP1.1 Gwella llwyddiant sefydliadau ymchwil yng Nghymru yn denu cyllid ymchwil cystadleuol a phreifat | Swm y cyllid ymchwil a sicrhawyd | £165m | £88m | £11m | £65m | £28m | £21m |
| | Nifer y mentrau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gynorthwyir | 160 | 104 | 13 | 90 | 31 | - |
| | Nifer y gwell cyfleusterau seilwaith ymchwil | 6 | 5 | - | 2 | 1 | 1 |
| | Nifer yr ymchwilwyr newydd mewn endidau a gynorthwyir | 470 | 355 | 7 | 290 | 91 | 17 |
| | Nifer yr ymchwilwyr yn gweithio mewn gwell cyfleusterau seilwaith ymchwil | 200 | 338 | - | 110 | 61 | 38 |
| AP1.2 Cynyddu cyfraddau trosi llwyddiannus prosesau ymchwil ac arloesedd yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell, yn arbennig drwy well proses trosglwyddo technoleg o SAUau | Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r farchnad | 490 | 167 | 1 | 300 | 91 | - |
| | Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni | 725 | 370 | 2 | 440 | 141 | - |
| | Nifer y mentrau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gynorthwyir | 1,212 | 500 | 7 | 715 | 211 | - |
| | Nifer y mentrau sy'n cael grantiau | 520 | 342 | - | 320 | 305 | - |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 3,750 | 1,081 | 47 | 2,245 | 459 | 16 |
| | Nifer y mentrau newydd a gynorthwyir | 30 | 29 | - | 20 | 6 | - |
| | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus mewn prosiectau arloesedd neu ymchwil a datblygu | €42.8m | €46.0m | €0.0m | €26.2m | €27.5m | €0.0m |
| | Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 1,125 | 468 | - | 670 | 186 | - |
| | Nifer y patentau sydd wedi eu cofrestru ar gyfer cynnyrch | 519 | 210 | - | 315 | 87 | - |
| | Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd | n/a | 48 | - | n/a | - | - |
| | Mentrau sy'n mabwysiadu: | | | | | | |
| | - neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 956 | 1 | - | 515 | - | - |
| | - neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 956 | 1 | - | 515 | - | - |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

**Atodiad 1: Diweddariad ERDF**

Ceir rhai amrywiannau yn y flaenoriaeth hon o'u cymharu â'r hyn y gellid ei ddisgwyl o ystyried y cyllid a neilltuwyd ond mae'n rhaid cydnabod y bydd SO1.1, o ystyried ei ffocws ar feithrin gallu, gan gynnwys seilwaith cysylltiedig, yn cymryd amser i sicrhau canlyniadau. Mae'r newid o ran targedu ar gyfer y Flaenoriaeth hon – o'i chymharu â rhaglenni blaenorol (a ddefnyddiwyd fel sail i bennu targedau rhaglenni) – yn enwedig yn effeithio ar yr amcan ynglŷn â masnacheiddio (SO1.2). Bydd y cais a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn chwilio'n benodol am gynigion a all gyflawni dangosyddion allweddol SO1.2. Mae rhaglenni 2014-2020 yn ceisio targedu mwy o gwmnïau sy'n cynnwys 10 cyflogai neu fwy, a rhoi mwy o bwyslais ar y microfusnesau hynny sydd â photensial gwirioneddol i dyfu i'r maint hwnnw o leiaf. Gallai'r dull gweithredu hwn gael mwy o effaith economaidd, ond bydd yn golygu llai o ffocws ar nifer y busnesau a gefnogir. Mae'r dangosyddion hefyd yn adlewyrchu pwyslais ar fwy o deilwra i roi cymorth dwysach, gan ystyried systemau arloesi yn eu cyfanrwydd yn y busnesau/clystyrau gwahanol (gan gyfrif pob menter lle y caiff cynhyrchion newydd eu cyflwyno, er enghraifft) yn hytrach na nifer y datblygiadau arloesol (a all arwain at lai o bwyslais ar yr effaith ar drosiant/defnyddioldeb).

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

## Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau

| Amcan Penodol | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | |
| AP2.1: Mynediad i Gyllid | 1 | £54.9m | £74.8m | 136% | 1 | £8.6m | £9.9m | 115% |
| AP2.2: Busnesau newydd | 1 | £13.7m | £18.6m | 136% | 1 | £3.3m | £6.2m | 188% |
| AP2.3: Defnyddio TGCh a manteisio arni | 1 | £8.7m | £5.2m | 60% | 1 | £1.3m | £1.7m | 131% |
| AP2.4: Twf Cyflogaeth | 3 | £73.2m | £27.0m | 37% | 3 | £16.1m | £8.3m | 51% |
| AP2.5: Cyllid Cyfalaf Risg | 1 | £15.9m | £20.7m | 130% | 1 | £2.6m | £5.5m | 211% |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 2** | **7** | **£166.4m** | **£146.4m** | **88%** | **7** | **£31.9m** | **£31.6m** | **99%** |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

**Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni**

Dim byd ers cyfarfod diwethaf PMRh.

Cafodd portffolio integredig ei ddatblygu yn seiliedig ar y gweithrediadau sy'n rhan o 'Deulu Busnes Cymru' sy'n cwmpasu Llywodraeth Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Cyllid Cymru a CGGC.

Mae cynnydd da wedi'i wneud ar neilltuo gyda 90% o'r adnoddau sydd ar gael yn y ddwy raglen wedi'u neilltuo.

Mae Cronfa Fusnes Cymru, sef Offeryn Ariannol, wedi gwneud cynnydd da ers ei lansio ym mis Medi 2016. Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2016, roedd wedi buddsoddi £5.4m mewn 19 o BBaChau, sef cyfanswm buddsoddiad o ychydig dros £28m. Nid yw Cynnydd Cyflogaeth yn cael ei fesur tan 12 mis ar ôl i'r buddsoddiad gael ei wneud, felly bydd y rhain yn llifo drwodd yn nes ymlaen.

Telir yr ERDF i mewn i'r gronfa mewn cyfrannau o 25% gan ddibynnu ar gyflawni targedau buddsoddi. Mae cronfa Dwyrain Cymru eisoes wedi tynnu ei hail gyfran o ERDF, ac mae cronfa Gorllewin Cymru yn barod i dynnu ei hail gyfran. Mae hyn yn newyddion da i'r Gronfa a'r BBaChau sy'n manteisio ar y gefnogaeth ac mae'n dangos y cynnydd mae'r Gronfa yn ei wneud.

Mae'r allbynnau'n dechrau adlewyrchu cyflymder cyflawni'r gweithgarwch Menter, Sefydlu a Thwf, er enghraifft mae cynnydd mewn cyflogaeth sy'n cyrraedd 2,300 a lefel allforio ychydig dan £10m yn y ddwy raglen yn galonogol.

Mae WEFO yn parhau i fonitro cynnydd, gan gydnabod bod y risgiau cynhenid wrth gyflawni'r flaenoriaeth yn canolbwyntio ar nifer fach o weithrediadau (7 ym mhob rhaglen).

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

## Tabl 3: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP2.1 Cynyddu faint o gyllid sydd ar gael i BBaChau, yn fusnesau newydd ac yn fusnesau sy'n ehangu | Buddsoddi mewn mentrau | £91.6m | £149.6m | £8.2m | £25.9m | £22.3m | £23.4m |
| | Nifer y mentrau sy'n cael grantiau | 160 | - | - | 45 | - | - |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau | 235 | 228 | 7 | 65 | 31 | 4 |
| | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb cymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Nad ydynt yn grantiau | €132.0m | €101.0m | €7.0m | €37.3m | €16.8m | €28.2m |
| | Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 2,300 | 1,954 | - | 650 | 265 | - |
| | Mentrau sy'n mabwysiadu: | | | | | | |
| | - neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 190 | 167 | - | 60 | - | - |
| | - neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 190 | 194 | - | 25 | - | - |
| AP2.2 Cynyddu nifer y BBaCh newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth ym maes entrepreneuriaeth | Nifer y mentrau newydd a gynorthwyir | 5,150 | 6,000 | 925 | 2,200 | 4,000 | 695 |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 275 | - | - | 120 | - | - |
| | Unigolion sy'n cael cymorth | 14,350 | 6,000 | 854 | 6,200 | 4,000 | 466 |
| | Unigolion sy'n cael cymorth - Benywaidd | 7,300 | - | 360 | 3,100 | - | 190 |
| | Unigolion sy'n cael cymorth - Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig | 375 | - | 39 | 445 | - | 16 |
| | Unigolion sy'n cael cymorth - Pobl anabl | 3,650 | - | 6 | 1,350 | - | 3 |
| | Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 8,800 | 10,250 | 734 | 3,800 | 6,750 | 230 |
| | Mentrau sy'n mabwysiadu: | | | | | | |
| | - neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 2,710 | 1,500 | - | 465 | 1,000 | - |
| | - neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 2,710 | 1,500 | 1 | 1,165 | 1,000 | 1 |

[1] Ffigurau dros dro yw'r ffigurau cyflawnwyd hyd yma dan SO2.2 ac SO2.4 ac maent yn dal i gael eu dilysu

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AP2.3 Cynyddu'r defnydd o rwydweithiau NGA a seilwaith TGCh gan BBaChau | Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni | 1,480 | 1,480 | - | 400 | 400 | - |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 3,450 | 3,823 | 170 | 900 | 1,094 | 230 |
| AP2.4 Cynyddu twf y BBaChau hynny â photensial i dyfu, yn enwedig drwy gael mynediad i farchnadoedd newydd (domestig a rhyngwladol) | Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 6,450 | 7,215 | 1,066 | 2,550 | 4,606 | 262 |
| | Nifer y mentrau sy'n cael grantiau | 40 | 30 | - | 10 | 15 | - |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau | 330 | - | - | 115 | - | - |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 13,650 | 12,400 | 1,701 | 5,400 | 8,170 | 1,226 |
| | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Grantiau | €4.3m | 0 | - | €2.2m | 0 | - |
| | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb cymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Nad ydynt yn grantiau | €6.6m | - | - | €3.4m | - | - |
| | Cynnydd mewn lefelau allforio | £167.1m | £130.0m | £8.4m | £65.9m | £85.0m | £1.7m |
| | Mentrau sy'n mabwysiadu: | | | | | | |
| | - neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 8,700 | 5,000 | 19 | 1,300 | 3,300 | 4 |
| | - neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 8,700 | 5,000 | 25 | 3,200 | 3,300 | 5 |
| AP2.5 Mynd i'r afael â methiannau'r farchnad o ran argaeledd cyllid, yn enwedig cyfalaf risg, fel y gall BBaChau Cymreig gyflawni arloesedd a masnacheiddio ymchwil a datblygu | Buddsoddi  mewn mentrau | £26.5m | £41.4m | £2.4m | £7.2m | £12.7m | £4.1m |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau | 90 | 49 | 4 | 25 | - | 4 |
| | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb cymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Nad ydynt yn grantiau | €23.8m | €27.9m | €1.8m | €14.1m | €9.7m | €3.7m |
| | Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 490 | 265 | - | 145 | 70 | - |
| | Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni | 20 | 24 | - | 5 | 6 | - |
| | Mentrau sy'n mabwysiadu: | | | | | | |
| | - neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 45 | 15 | - | 5 | - | - |
| | - neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 45 | 18 | - | 13 | - | - |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

[1] Ffigurau dros dro yw rhai o'r ffigurau Cyflawnwyd hyd yma ac maent yn dal i gael eu dilysu

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

## Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

| Amcan Penodol | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | |
| AP3.1: Ynni'r Môr | 4 | £80.3m | £16.9m | 21% | n/a | n/a | n/a | n/a |
| AP3.2: Ynni Cymunedol (AP3.1 Dwyrain Cymru) | 0 | £18.7m | £0.0m | 0% | 0 | £3.6m | £0.0m | 0% |
| AP3.3: Arbed Ynni (AP3.2 Dwyrain Cymru) | 1 | £37.6m | £19.7m | 52% | 1 | £14.3m | £3.6m | 25% |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 3** | **5** | **£136.7m** | **£36.6m** | **27%** | **1** | **£17.9m** | **£3.6m** | **20%** |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

## Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf PMRh

| Gweithrediadau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ERDF | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ERDF |
| Arbed 3 (Welsh Government) | £28.4m | £19.7m | £7.1m | £3.6m |
| Pembrokeshire Wave Energy Demonstration Zone - Feasibility (Wave Hub Limited) | £0.3m | £0.2m | | |

Mae'r Flaenoriaeth hon yn faes arloesol yn y rhaglenni ac er bod cynnydd yn fwy heriol na'r disgwyl, mae rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud; yn enwedig o ran gweithio gyda datblygwyr sy'n awyddus i ddefnyddio'r dyfroedd o amgylch Cymru ar gyfer eu dyfeisiau ynni'r tonnau ac ynni'r llanw. Mae sgyrsiau cyn cynllunio â datblygwyr yn mynd rhagddynt yn gyflym ac mae'r cynnydd yn parhau i fod yn galonogol.

Mae llai o gyfle ar gyfer gweithgarwch yn rhaglen Dwyrain Cymru gan nad yw cynhyrchu ynni'r môr yn weithgarwch cymwys. Fel y cyfryw, mae rhaglen Dwyrain Cymru yn dibynnu ar weithrediadau a fydd yn cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol ar raddfa fach a gwella effeithlonrwydd ynni stoc tai Cymru sy'n bodoli eisoes, yn enwedig mewn ardaloedd o dlodi tanwydd.

Mae gweithdai wedi cael eu cynnal ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r cyllid sydd ar gael dan gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol ar raddfa fach yr UE ac mae nifer o gynlluniau posibl yn cael eu hystyried ond prin yw'r diddordeb o hyd yn Nwyrain Cymru. Mae WEFO wrthi'n adolygu'r diddordeb yn y gweithgarwch hwn a bydd yn ystyried opsiynau ar y ffordd orau o ddatblygu hyn maes o law.

Mae gweithrediad strategol Cymru gyfan Arbed 3 bellach wedi'i gymeradwyo ac mae caffael y Rheolwyr Cynllun ar waith gyda gwerthusiadau tendr wedi'u cynllunio ar gyfer mis Chwefror 2017. Er mwyn sicrhau y cytunir ar y model cyflawni cywir ac fel bod y cyflawnwyr yn deall eu rhwymedigaethau'n llwyr, cynhelir cyfres o weithdai ar hyn o bryd rhwng Llywodraeth Cymru fel buddiolwr arweiniol, Awdurdodau Lleol a'r timau Ymgysylltu Rhanbarthol. Bydd canlyniad y gweithdai hyn yn pennu'r model cyflawni i'w fabwysiadu yn ystod oes y gweithrediadau.

Rhagwelir y bydd y gwaith cyflawni'n dechrau ddiwedd gwanwyn 2017.

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

## Tabl 4: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP3.1 Cynyddu nifer y dyfeisiau ynni tonnau a llanw a brofir yn nyfroedd Cymru ac oddi ar yr arfordir, gan gynnwys araeau aml-ddyfais, a thrwy hynny sefydlu Cymru fel canolfan cynhyrchu ynni morol | Gallu ac adnoddau ychwanegol cynhyrchu ynni adnewyddadwy | 20 | 1 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Cynlluniau paratoi safle cynorthwyo ynni | 2 | 1 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd | 8 | 3 | - | n/a | n/a | n/a |
| AP3.2 Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy bach a sefydlir<br><br>(AP3.1 Dwyrain Cymru) | Cynlluniau ynni cymunedol | 37 | - | - | 3 | - | - |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 150 | - | - | 70 | - | - |
| | Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni | 75 | - | - | 35 | - | - |
| | Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd | 4 | - | - | 3 | - | - |
| | Gallu ac adnoddau ychwanegol cynhyrchu ynni adnewyddadwy | n/a | n/a | n/a | 8 | - | - |
| | Cynlluniau paratoi safle cynorthwyo ynni | n/a | n/a | n/a | 1 | - | - |
| | Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd | n/a | n/a | n/a | 3 | - | - |
| AP3.3 Cynyddu effeithlonrwydd ynni stoc dai bresennol Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd tlodi tanwydd<br><br>(AP3.2 Dwyrain Cymru) | Nifer yr aelwydydd â dosbarthiad gwell o ran y defnydd o ynni | 5,500 | 3,060 | - | 4,200 | 765 | - |
| | Amcangyfrif o'r gostyngiad mewn nwyon tŷ gwydr | 10 | - | - | 5 | - | - |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Ar hyn o bryd, mae'n rhy fuan i ddod i unrhyw gasgliadau pendant ynglŷn â chyflawni'r dangosyddion. O ystyried y gweithrediadau hynny sy'n cael eu datblygu, nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynglŷn â'r allbynnau ac ymddengys fod cynnydd da yn cael ei wneud yn yr holl allbynnau, hyd yn oed o ystyried natur arloesol y Flaenoriaeth ac mai gwaith adeiladu cyfalaf yw'r gweithrediadau a ariennir lle bydd adroddiadau cyflawni yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach yn ystod y cyfnod rhaglennu.

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

## Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol

| Amcan Penodol | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | |
| AP4.1: Ffyrdd | 3 | £85.1m | £64.2m | 75% | n/a | n/a | n/a | n/a |
| AP4.2: Trafnidiaeth Gyhoeddus (AP4.1 Dwyrain Cymru) | 2 | £137.7m | £19.0m | 14% | 0 | £28.9m | £0.0m | 0% |
| AP4.3: TGCh (AP4.2 Dwyrain Cymru) | 2 | £44.6m | £19.9m | 45% | 2 | £9.4m | £9.3m | 99% |
| AP4.4: Safleoedd Strategol | 6 | £133.7m | £94.3m | 71% | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 4** | **13** | **£401.0m** | **£197.3m** | **49%** | **2** | **£38.3m** | **£9.3m** | **24%** |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

## Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni

| Gweithrediadau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ERDF | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ERDF |
| A40 Llanddewi Velfrey to Penblewin (Welsh Government) | £35.0m | £23.0m | | |
| A55 Abergwyngregyn to Tai'r Meibion (Welsh Government) | £22.4m | £14.9m | | |
| A55 Junctions 15 and 16 (Welsh Government) | £40.0m | £26.3m | | |
| Property for Business Development Grant (PBDG) (Welsh Government) | £20.0m | £7.0m | | |

Mae rhaglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yn cydnabod bod buddsoddiad er mwyn gwella cysylltedd yn echel ragofynnol hanfodol. Er enghraifft, dylai buddsoddiad mewn ffyrdd TEN-T dargedu'r rhannau hynny o'r A40 a'r A55 sydd â'r cwmpas mwyaf i wella cysylltedd a galluogi pobl i fanteisio ar amrywiaeth ehangach o gyfleoedd gwaith ac addysg. Bydd gan ddau weithrediad cymeradwy'r A55 gysylltiad uniongyrchol â gwella hygyrchedd ar gyfer dau safle (Llangefni a Phenrhos) ar ben y cyfleoedd ehangach sy'n codi o Ynys Ynni. Bydd gweithrediad cymeradwy'r A40 yn cael effaith uniongyrchol ar Ardal Fenter y Ddau Gleddau a datblygiadau safle yn Llwynhelyg a Cross Hands.

Mae'n rhaid i weithgareddau penodol dan Flaenoriaeth Cysylltedd ar gyfer rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd gael eu blaenoriaethu'n rhanbarthol. Aeth gweithrediad cymeradwy Cyrchfan Denu Twristiaeth drwy'r broses flaenoriaethu hon ac mae'n parhau i wneud cynnydd da gyda thri phrosiect bellach wedi'u cefnogi gan y prif weithrediad hwn. Y rhain yw: Rock UK, Glannau Bae Colwyn a Chanolfan Forol Porthcawl. Mae nifer o brosiectau unigol eraill sy'n rhan o'r 'prif' weithrediad hwn ar y cam cynllunio busnes a disgwylir amserlen o gymeradwyaethau dros yr ychydig fisoedd nesaf. Mae Adeiladu ar gyfer y Dyfodol wedi'i gymeradwyo ac mae WEFO wrthi'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y cyflwynir prosiectau i WEFO yn amserol i'w hasesu ac i gytuno i ddechrau ar y gwaith. Disgwylir cytundeb WEFO ar y gyfran gyntaf o brosiectau ym mis Mawrth 2017.

Mae chwe Safle ac Eiddo sy'n llenwi bylchau ac a flaenoriaethwyd yn rhanbarthol ar gam cynllunio busnes WEFO a disgwylir cymeradwyaeth yn fuan.

Mae Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud cynnydd cyson o ran gwerthuso opsiynau Cam 2 y Metro a fydd yn ceisio cymorth dan ERDF. Bydd Cam

2 y Metro yn brosiect mawr, fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Cronfeydd Strwythurol yr UE, a bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r Comisiwn wedi cyflwyno proses asesu newydd ar gyfer prosiectau mawr a fydd yn cynnwys ymgysylltu ag arbenigwyr JASPERS (yn Saesneg **J**oint **A**ssistance to **S**upport **P**rojects in **E**uropean **R**egions). Anogir Aelod-wladwriaethau i ymgysylltu â'r JASPERS mor fuan â phosibl wrth ddatblygu prosiectau mawr ac i'r perwyl hwnnw cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd adeiladol iawn rhwng WEFO, Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru a JASPERS, gan gynnwys galwadau cynadledda dros y ffôn mynych. Cynllunnir rhagor o gyfarfodydd rhwng JASPERS, WEFO a Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y cynhelir y momentwm a'r cynnydd cadarnhaol a wnaed hyd yma.

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

## Tabl 5: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP4.1 Ymdrin ag ymyloldeb a gwella buddsoddiad preifat mewn ardaloedd lleol drwy wella'r ffordd y mae'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) yn gweithredu) | Cyfanswm hyd y ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T) | 15 | 7 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Llwybr troed neu lwybr beicio wedi'i greu neu ei ailadeiladu | 10 | 3 | - | n/a | n/a | n/a |
| AP4.2 Mwy o symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau trefol a chyflogaeth allweddol<br><br>(AP4.1 Dwyrain Cymru) | Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u creu neu eu gwella | 2,500,000 | - | - | 420,000 | - | - |
| | Cyfleusterau rhyngfoddol wedi'u creu neu eu gwella | 25 | 6 | 3 | 5 | - | - |
| | Cyfanswm hyd rheilffordd newydd (gan gynnwys TEN-T) | 15 | - | - | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfanswm hyd y rheilffordd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T) | 15 | - | - | 3 | - | - |
| | Cilometrau teithwyr gros ar drafnidiaeth gyhoeddus | 400,000,000 | 1,790,041 | - | 67,200,000 | - | - |
| | Cyfanswm hyd y ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T) | 5 | 1 | - | 5 | - | - |
| | Lleihad mewn allyriadau cyfatebol ag $CO_2$ | 10,700 | - | - | 1,800 | - | - |

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP4.3 Cyfrannu at dargedau Agenda Ddigidol Ewrop yng Nghymru am fynediad o 30% i fand eang y genhedlaeth nesaf (50Mbps ac uwch) a mynediad o 100% i 100Mbps (AP4.2 Dwyrain Cymru) | Eiddo ychwanegol â mynediad band eang 30 Mbps o leiaf - Aelwydydd | 28,000 | 69,524 | - | 28,000 | 46,801 | - |
| | Nifer y Mentrau a gynorthwyir i gysylltu â rhwydweithiau 100Mbps neu uwch | 250 | 250 | - | 25 | 25 | - |
| | Poblogaeth ychwanegol sy'n derbyn band eang cyflym iawn (>100Mbps) | n/a | 91,053 | - | n/a | 43,494 | - |
| AP4.4 Cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith lleol neu ranbarthol â blaenoriaeth sy'n ategu strategaeth economaidd ranbarthol neu drefol | Nifer y swyddi y crëwyd lle ar eu cyfer | 1,770 | 2,760 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Tir wedi'i ddatblygu | 50 | 95 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Adeiladau a grëwyd neu a adnewyddwyd | 56,430 | 142,489 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Nifer y busnesau bach a chanolig y crëwyd lle ar eu cyfer | 235 | 237 | - | n/a | n/a | n/a |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Mae'n rhy fuan i ddod i unrhyw gasgliadau pendant ar gyflawni allbynnau; ond o'r hyn a gymeradwywyd a'r hyn sydd ar gam cynllunio busnes a chyn cynllunio, ymddengys fod y broses o gyflawni allbynnau a thargedau ar y trywydd iawn.

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

## Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol

| | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 5** | 7 | £19.3m | £19.0m | 99% | 6 | £3.3m | £2.9m | 88% |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

## Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni

| Gweithrediadau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ERDF | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ERDF |
| WEFO TA (Welsh Government) | £19.7m | £13.3m | £3.4m | £1.7m |

Sefydlwyd pedwar Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol i helpu i wella'r ffordd rydym yn cyflwyno ac yn rheoli rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020. Maent wedi'u lleoli yn y gogledd, yn y canolbarth, ym Mae Abertawe ac yn y de-ddwyrain.

Maent yn ychwanegu gwerth at y ffordd y mae WEFO yn cyflwyno ac yn rheoli'r rhaglenni drwy sicrhau y caiff y gwaith hwn ei integreiddio'n rhanbarthol. Maent hefyd yn cyfrannu at y newid tuag at fodel cyflawni mwy strategol gyda fframwaith cliriach ar gyfer blaenoriaethu economaidd drwy sicrhau cysoni rhanbarthol a chydlyniant gweithrediadau. Un o brif swyddogaethau'r timau yw hwyluso'r broses o brawfesur gweithrediadau a gynigir o safbwynt rhanbarthol er mwyn rhoi barn ranbarthol i WEFO ynghylch y graddau y mae'r holl weithrediadau arfaethedig yn gyson â'r strategaethau perthnasol ac ymyriadau a gweithgareddau ehangach ac, ar adegau, hwyluso'r broses o flaenoriaethu rhai gweithrediadau arfaethedig yn rhanbarthol yn unol â chais gan WEFO (er enghraifft, ar gyfer Amcan Penodol 4.4 ERDF). Mae'r timau hefyd yn gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn perthynas â phrawfesur o safbwynt rhanbarthol ac ymgysylltu ynglŷn â gweithrediadau ESF. Mae'r holl weithrediadau Cymorth Technegol bellach wedi'u cymeradwyo.

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

### Adran 1: Rhaglenni ESF: Neilltuo cyllid

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y cynnydd ariannol presennol dan y Rhaglenni ESF, gan gynnwys trosolwg o'r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth. Dengys Tabl 1 nifer Grantiau'r UE a neilltuwyd a'r symiau ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy dan Raglenni ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru, ochr yn ochr â Grant posibl yr UE a neilltuir os bydd Gweithrediadau ar y Cam Cynllunio Busnes a'r cam Cyn Cynllunio yn mynd rhagddynt.

**Tabl 1: Neilltuo Grant yr UE: Cam Cymeradwy, Cam Cynllunio Busnes a Cham Cyn Cynllunio**

**Tabl 2: Ymrwymiad Grant UE: Cymeradwywyd, Cyfnodau Cynllunio Busnes a Chynllunio o flaen llaw**

£ Miliynau

| Rhaglen / Echel Blaenoriaeth | Gweithrediadau | | | Ymrwymiad Grant UE | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymeradwywyd | Cynllunio Busnes | Cynllunio o flaen llaw | Dyraniad* | Cymeradwywyd | Cynllunio Busnes | Cynllunio o flaen llaw |
| **ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | | | | | | | |
| Blaenoriaeth 1 | 10 | 3 | 0 | 156.8 | 100.6 | 2.3 | - |
| Blaenoriaeth 2 | 16 | 5 | 4 | 276.5 | 252.9 | 6.7 | - |
| Blaenoriaeth 3 | 13 | 7 | 3 | 195.8 | 145.7 | 14.7 | - |
| Blaenoriaeth 4 | 6 | 0 | 0 | 12.8 | 14.9 | - | - |
| **Cyfanswm** | **45** | **15** | **7** | **641.9** | **514.1** | **23.7** | **-** |
| **ESF Dwyrain Cymru** | | | | | | | |
| Blaenoriaeth 1 | 5 | 5 | 1 | 35.0 | 13.2 | 2.6 | - |
| Blaenoriaeth 2 | 10 | 4 | 3 | 76.4 | 46.1 | 1.7 | - |
| Blaenoriaeth 3 | 9 | 6 | 1 | 48.0 | 36.9 | 5.8 | - |
| Blaenoriaeth 4 | 5 | 0 | 0 | 3.3 | 2.8 | - | - |
| **Cyfanswm** | **29** | **15** | **5** | **162.6** | **99.0** | **10.1** | **-** |
| **Cyfanswm ESF** | **74** | **30** | **12** | **804.5** | **613.0** | **33.8** | **-** |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

* Dyraniad grant UE yn seiliedig ar £1:€1.25

### Diweddariad Cyffredinol o'r Rhaglenni

Mae'r swm a neilltuwyd bellach ar 76% ar gyfer y ddwy raglen, gyda 74 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo a £613 miliwn wedi'i neilltuo'n gyffredinol, £228.8m ychwanegol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni, yn bennaf mewn estyniadau cynlluniedig ar gyfer prif weithrediadau dan bob maes Blaenoriaeth. Mae'r cynnydd hwn yn y cyflymder neilltuo'n adlewyrchu amcan WEFO i neilltuo 60% o'r Cyllid Strwythurol dan y prif raglenni rhanbarthol erbyn diwedd mis Tachwedd 2016, a gyflawnwyd. Bydd yr estyniadau i weithrediadau Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyflwyno amserlen llywodraeth bresennol Cymru.

Erbyn hyn, mae gan y rhan fwyaf o feysydd Blaenoriaeth ac Amcan Penodol bortffolio cytbwys o weithrediadau sydd â'r nod o gyflawni ar gyfer yr amrywiaeth o grwpiau cleientiaid targed sy'n cymryd rhan a'r canlyniadau targed. Gallai gweithrediadau newydd sy'n cael eu datblygu o hyd arwain at neilltuo £34m arall ac maent yn cynnig gweithgarwch arbenigol wedi'i deilwra i lenwi bylchau yn yr amrywiaeth o ddarpariaeth a gynigir neu'r grŵp cleient a dargedir. Bydd angen i WEFO weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn datblygu rhagor o ddiddordeb ym mlaenoriaethau Tlodi Dwyrain Cymru lle mae lefelau neilltuo'n parhau i fod islaw'r lefelau disgwyliedig.

Yn ychwanegol at reoli symiau neilltuo'r dyfodol, mae'r prif ffocws i ESF bellach ar gyflawni. Mae'r rhaglenni wedi ymgysylltu â thros 74,000 o gyfranogwyr hyd yma (17% o'r targed cyffredinol).

**Atodiad 1: Diweddariad ERDF**

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

## Adran 2: Cynnydd yn ôl Blaenoriaeth
## Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

| Amcan Penodol | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ESF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ESF | |
| AP1.1: Helpu pobl i mewn i waith | 1 | £36.9m | £33.9m | 92% | n/a | n/a | n/a | n/a |
| AP1.2: Cynhwysiant ac Ymgysylltu mewn LM (AP1.1 Dwyrain Cymru) | 8 | £96.2m | £63.4m | 66% | 5 | £35.0m | £13.2m | 38% |
| AP1.3: Helpu pobl i aros mewn gwaith | 1 | £23.6m | £3.3m | 14% | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 1** | **10** | **£156.8m** | **£100.6m** | **64%** | **5** | **£35.0m** | **£13.2m** | **38%** |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

## Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni

| Gweithrediadau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ESF | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ESF |
| SOVA | | | 1.2 | 0.6 |

Cymeradwywyd £31.8 miliwn arall o gyllid ESF yn ardal raglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a £3.2m arall yn Nwyrain Cymru ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni sy'n golygu bod y swm a neilltuwyd dan y Flaenoriaeth wedi cyrraedd 64% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 38% yn Nwyrain Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ychwanegol wedi'i ddyfarnu drwy estyniadau i'r gweithrediadau presennol. Mae £21.5m o ESF ychwanegol wedi'i ddyfarnu er mwyn estyn hyd ac ehangder **ReACT III** yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ar gyfer cyflwyno'r Rhaglen Cyflogadwyedd Pob Oed yn 2018. Bydd y ddarpariaeth ychwanegol yn cynnwys estyn cefnogaeth o 2018 i gynnwys unigolion di-waith yn y byrdymor â sgiliau isel neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith. Mae £12.9m o ESF ychwanegol (£10.3m Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a £2.6m Dwyrain Cymru) hefyd wedi'i gymeradwyo ar gyfer prosiect **Cymunedau am Waith** dan arweiniad LlC.

O'r cyllid a neilltuwyd yn Nwyrain Cymru, mae £0.6m wedi'i gymeradwyo ar gyfer **Cyflawni Newid drwy Gyflogaeth** dan arweiniad SOVA. Bydd y gweithrediad unigryw hwn yn canolbwyntio ar bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BAME) economaidd anweithgar a di-waith yn yr hirdymor ac unigolion mudol i gael cyflogaeth gynaliadwy.

Mae pob gweithrediad a gymeradwywyd yn mynd i'r afael â rhwystrau penodol y mae unigolion yn eu hwynebu i ddod o hyd i gyflogaeth ac aros mewn cyflogaeth. Maent oll yn adeiladu ar lwyddiannau cylch blaenorol cyllid ESF drwy barhau i ganolbwyntio ar gyflogaeth fel y prif amcan i unigolyn a hyd yn oed yn fwy ar yr unigolion hynny sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf cymhleth i gael cyflogaeth.

Yn Nwyrain Cymru mae'r lefelau neilltuo, fel cyfran o'r cyllid sydd ar gael, yn is na'r hyn a ddisgwylir ar y cam hwn er bod gwerth cyffredinol symiau ESF a neilltuwyd yn debyg i'r hyn a neilltuwyd ar y cam hwn yn y rhaglen ddiwethaf. Ar hyn o bryd, mae WEFO yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn Nwyrain Cymru er mwyn datblygu cynigion ymhellach yn y cam cyn cynllunio, yn enwedig, er enghraifft, gan yr Awdurdodau Lleol yn rhanbarthol er mwyn helpu i wella'r lefelau neilltuo cyffredinol. Mae

tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod argaeledd arian cyfatebol yn cyfyngu ar faint a chwmpas ymyriadau arfaethedig a diddordeb cyffredinol yn y Flaenoriaeth hon.
Yn yr un modd yn SO3 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae WEFO yn dal i geisio ymgysylltu â phartïon â diddordeb er mwyn cyflawni i unigolion tangyflogedig ac unigolion cyflogedig â chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith.

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

## Tabl 1: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Targed** | **Rhagolwg Prosiect** | **Cyflawnwyd hyd yma** | **Targed** | **Rhagolwg Prosiect** | **Cyflawnwyd hyd yma** |
| AP1.1 Cynyddu cyflogadwyedd y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi | Nifer y di-waith tymor byr heb sgiliau/sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | 5,999 | 4,799 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Unigolion y mae dileu swydd yn effeithio arnynt | 12,001 | 15,269 | 1,370 | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr di-waith yn y tymor byr â sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio mewn cyflogaeth wrth adael | 33% | 57% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr di-waith yn y tymor byr â sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sy'n ennill cymhwyster wrth adael | 50% | 86% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Unigolion y mae dileu swydd yn effeithio arnynt sydd mewn cyflogaeth wrth adael | 55% | 54% | 20% | n/a | n/a | n/a |
| | Unigolion y mae dileu swydd yn effeithio arnynt sy'n ennill cymhwyster wrth adael | 70% | 78% | 77% | n/a | n/a | n/a |
| AP1.2 Cynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n Economaidd anweithgar ac sy'n Ddiwaith yn yr Hirdymor sy'n 25 oed a throsodd sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth<br><br>(AP1.1 Dwyrain Cymru) | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | 36,000 | 41,845 | 1,794 | 12,700 | 13,936 | 190 |
| | Di-waith tymor hir (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | 10,800 | 16,776 | 843 | 3,800 | 5,863 | 243 |
| | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n mynd i gyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth adael | 20% | 18% | 5% | 20% | 17% | 14% |
| | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ymwneud â chwilio am swydd wrth adael | 25% | 14% | 3% | 25% | 14% | 21% |
| | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith wrth adael | 50% | 29% | 7% | 50% | 24% | 3% |
| | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n cynyddu eu cyflogadwyedd drwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle i wirfoddoli | 54% | 17% | 0% | 54% | 21% | 0% |
| | Di-waith hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n mynd i gyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth adael | 25% | 16% | 0% | 25% | 16% | 0% |
| | Di-waith yn yr hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith wrth adael | 50% | 27% | 6% | 50% | 20% | 1% |
| | Di-waith hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n cynyddu eu cyflogadwyedd drwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle i wirfoddoli | 54% | 23% | 5% | 53% | 19% | 1% |

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP1.3 Gostwng cyfraddau tangyflogaeth neu absenoldeb unigolion cyflogedig sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith a/neu rwystrau eraill I ymgysylltu â'r farchnad lafur mewn modd cynaliadwy | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chyflwr neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | 4,000 | 4,232 | 6 | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr sydd wedi eu tangyflogi sydd â rhwystrau i gyflogaeth lawn | 4,000 | - | - | n/a | n/a | n/a |
| | Nifer y busnesau micro bach a chanolig a gynorthwyir | 2,000 | - | - | n/a | n/a | n/a |
| | Rhaglenni iechyd yn y gweithle | 300 | 130 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Mentrau â chymorth sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 50% | 0% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb | 50% | 19% | 100% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad lafur wrth adael | 50% | 31% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr sydd wedi eu tangyflogi sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad lafur wrth adael fel contract parhaol ag oriau uwch | 40% | 0% | 0% | n/a | n/a | n/a |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

Fel arfer, mae nifer y cyfranogwyr a ragwelir yn rhagori ar dargedau'r rhaglen o'u cymharu â chyfran y cyllid a ddyrennir. Er enghraifft, disgwylir i 65% o'r targed ar gyfer unigolion sydd wedi colli eu swyddi (SO1.1 dan raglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) gael ei gyflawni, ar ôl neilltuo dim ond 34% o'r cyllid sydd ar gael. Hyd yma, mae gweithrediadau Blaenoriaeth 1 wedi ymgysylltu â thros 3,000 o gyfranogwyr.

*Colli swydd a diweithdra byrdymor (SO 1.1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd):* nid yw nifer y bobl sydd wedi gwneud cais am gymorth ar ôl colli swydd dan weithrediad ReACT wedi bod mor uchel â'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Mae ReACT yn ymateb yn uniongyrchol i lefel y galw yn y farchnad lafur. Felly, gellir priodoli'r niferoedd isel yn rhannol i gryfder presennol y farchnad lafur a'r lefelau is o swyddi a gollwyd na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Felly, mae'n gadarnhaol ar y cyfan bod y niferoedd yn is na'r disgwyl ond mae'n rhywbeth y bydd angen i WEFO ei fonitro o ran lefelau gwariant cyffredinol yn yr amcan penodol hwn.

*Di-waith ac Economaidd Anweithgar yn yr Hirdymor (SO1.2 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac SO1 Dwyrain Cymru):* Mae'r rhagolygon yn rhagori ar dargedau'r rhaglenni o ystyried y lefel neilltuo. Mae'r niferoedd ymddangosiadol isel o gyfranogwyr hyd yma yn adlewyrchu'r terfynau amser hwy nag a ragwelwyd i roi systemau ar waith a dechrau cyflawni a natur fwy heriol ymgysylltu â'r grwpiau targed anos eu cyrraedd sy'n sail i amcanion y rhaglen. Adlewyrchir hyn hefyd yn y dangosyddion canlyniadau yn yr ystyr bod angen ymyriadau dwysach yn y tymor hwy gyda'r garfan anos ei chyrraedd ac felly caiff y canlyniadau a ragwelir eu sicrhau'n ddiweddarach nag a gynlluniwyd. Mae cyflawni'n dangos gwelliant yn y canlyniadau a gyflawnwyd, yn enwedig ymhlith y garfan Economaidd Anweithgar sy'n dechrau cyflogaeth.

*Pobl ddi-waith ac mewn gwaith sydd â Chyflyrau Iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio (SO3 WWV):* unwaith eto, mae'r hyn a gyflawnwyd ychydig yn is na'r disgwyl ar y cam hwn oherwydd terfynau amser hwy nag a ragwelwyd i roi prosesau cyflawni ar waith.

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

## Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

| Amcan Penodol | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ESF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ESF | |
| AP2.1: Sgiliau Sylfaenol | 5 | £133.3m | £87.4m | 66% | 3 | £50.0m | £19.0m | 38% |
| AP2.2: Hyblygrwydd a Chynnydd | 8 | £83.2m | £123.9m | 149% | 6 | £22.5m | £25.3m | 113% |
| AP2.3: Ymchwil ac Arloesi | 2 | £42.8m | £35.4m | 83% | n/a | n/a | n/a | n/a |
| AP2.4: Cydraddoldeb Rhywiol (AP2.3 Dwyrain Cymru) | 1 | £17.1m | £6.3m | 37% | 1 | £3.9m | £1.8m | 45% |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 2** | **16** | **£276.5m** | **£252.9m** | **91%** | **10** | **£76.4m** | **£46.1m** | **60%** |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

**Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni**

Dim byd ers cyfarfod diwethaf PMRh.

Er na chymeradwywyd gweithrediadau newydd ers cyfarfod diwethaf PMRh, neilltuwyd £123.5m o ESF ychwanegol er mwyn estyn gweithrediadau presennol y ddwy raglen, gan gynyddu'r lefelau neilltuo Blaenoriaeth i 91% a 60% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yn ôl eu trefn. Mae £122.5m o ESF ychwanegol (£101.7m yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac £20.8m yn Nwyrain Cymru) wedi'i gymeradwyo er mwyn estyn cyfres bresennol y prosiectau **Prentisiaethau** er mwyn helpu i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni 100,000 o brentisiaethau newydd dros oes y Cynulliad hwn. Mae £1m o ESF ychwanegol (Dwyrain Cymru) wedi'i ddyfarnu er mwyn estyn **Rhaglen Gwasanaethau Ariannol i Raddedigion Cymru** dan arweiniad y sector preifat i gefnogi 40 o raddedigion ychwanegol i'w datblygu'n weithwyr diwydiant proffesiynol a medrus.

Mae'r portffolio o weithrediadau hyd yma yn adeiladu ar gyflawniadau rhaglen 2007-2013, drwy ganolbwyntio ar ddarparu'r sgiliau technegol ac arbenigol hanfodol sydd eu hangen i greu gweithlu ystwyth ac ymatebol sy'n barod i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a'r potensial o ran twf a gynigir gan economi wybodaeth fodern. Er bod sgiliau sylfaenol a hanfodol yn sylfaen gyffredin, ac angenrheidiol, i'r gweithlu cyfan, mae'r wybodaeth am gyfleoedd twf allweddol a'r sectorau sy'n datblygu a'r sectorau â blaenoriaeth a nodwyd yn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd, ynghyd â'r Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau sy'n cael eu datblygu gan y Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol a Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn adnoddau allweddol i arwain y gwaith o dargedu ymyriadau sgiliau a'u ffocws, yn enwedig y rhai sy'n dysgu sgiliau ar lefel ganolraddol ac uwch.

Mae buddiolwyr sy'n awyddus i roi hyfforddiant i'r gweithlu cyflogedig yn ymateb yn gadarnhaol i gyfeiriad polisi newydd cyd-fuddsoddi gan gyflogwyr a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Sgiliau Llywodraeth Cymru ac sy'n cael ei annog gan y Rhaglenni Gweithredol. Mae arian cyfatebol preifat o gyfraniadau arian parod cyflogwyr yn rhan annatod o'r gweithrediadau hyn wrth iddynt gael eu datblygu a'u cymeradwyo.

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

## Tabl 2: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP2.1 Cynyddu lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rhai yn y gweithlu sydd â sgiliau isel os o gwbl | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Dynion | 14,029 | 4,774 | 187 | 7,799 | 1,728 | - |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Menywod | 12,771 | 5,083 | 143 | 7,101 | 1,934 | - |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Dynion | 23,870 | 21,721 | 6,523 | 13,296 | 9,022 | 3,192 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Menywod | 21,730 | 26,131 | 6,445 | 12,104 | 10,854 | 3,580 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol sy'n ennill sgiliau hanfodol neu gymhwyster technegol neu benodol i swydd wrth adael - Dynion | 72% | 77% | 37% | 72% | 76% | 0% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol sy'n ennill sgiliau hanfodol neu gymhwyster technegol neu benodol i swydd wrth adael - Menywod | 72% | 78% | 44% | 72% | 76% | 0% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig gyda hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd is wrth adael - Dynion | 72% | 80% | 58% | 72% | 81% | 56% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig gyda hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd is wrth adael - Menywod | 72% | 80% | 54% | 72% | 81% | 51% |

**Atodiad 1: Diweddariad ERDF**

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP2.2 Cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i waith ar lefel ganolraddol ac uwch | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) - Dynion | 16,070 | 22,177 | 4,343 | 6,438 | 9,754 | 2,324 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) - Menywod | 14,630 | 27,412 | 4,624 | 5,862 | 12,208 | 2,443 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Dynion | 10,731 | 11,887 | 4,610 | 4,292 | 5,385 | 2,820 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Menywod | 9,769 | 12,997 | 9,131 | 3,908 | 5,586 | 5,552 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd wrth adael ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Dynion | 60% | 79% | 53% | 60% | 80% | 56% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd wrth adael ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Menywod | 60% | 79% | 51% | 60% | 80% | 54% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch wrth adael - Dynion | 60% | 80% | 36% | 60% | 80% | 38% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch wrth adael - Menywod | 60% | 80% | 42% | 60% | 80% | 44% |

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP2.3 Cynyddu nifer y bobl â graddau neu gymhwyster cyfatebol sy'n cyflawni gweithgareddau ymchwil ac arloesedd ym myd busnes | Cyfranogwyr sydd ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth - Dynion | 780 | 442 | 55 | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr sydd ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth - Menywod | 720 | 368 | 39 | n/a | n/a | n/a |
| | Nifer y Mentrau sy'n cydweithio â darparwyr dysgu | 750 | 542 | 76 | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sy'n ennill cymhwyster wrth adael ar lefel Meistr (FfCChC 7) neu Ddoethuriaeth (FfCChC 8) - Dynion | 63% | 82% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sy'n ennill cymhwyster wrth adael ar lefel Meistr (FfCChC 7) neu Ddoethuriaeth (FfCChC 8) - Menywod | 63% | 79% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr â gradd ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sydd mewn cyflogaeth wrth adael - Dynion | 52% | 0% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr â gradd ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sydd mewn cyflogaeth wrth adael - Menywod | 52% | 0% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| AP2.4 Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu<br>(AP2.3 Dwyrain Cymru) | Nifer y mentrau micro bach a chanolig a gynorthwyir (gan gynnwys mentrau cydweithredol, mentrau yr economi gymdeithasol) | 800 | 410 | 93 | 300 | 90 | 37 |
| | Cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig | 4,400 | 1,707 | 276 | 1,500 | 500 | 174 |
| | Cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster wrth adael | 75% | 80% | 37% | 73% | 80% | 24% |
| | Mentrau â chymorth sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 50% | 80% | 30% | 50% | 87% | 22% |
| | Cyfranogwyr sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad wrth adael | 40% | 40% | 0% | 40% | 40% | 0% |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

**Atodiad 1: Diweddariad ERDF**

Yn gyffredinol, mae'r sefyllfa o ran perfformiad ar gyfer y flaenoriaeth hon yn galonogol iawn. Lle ceir bylchau yn yr allbynnau a neilltuwyd i fuddiolwyr mae cyllid ar gael o hyd i fynd i'r afael â hwy. Hyd yma, mae dros 36,000 o gyfranogwyr eisoes wedi'u cofrestru gan weithrediadau cymeradwy yn y Flaenoriaeth hon. Mae'r diffyg ymddangosiadol ar gyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau ar yr adeg hon yn yr amcanion penodol yn adlewyrchu hyd y cyrsiau a ddilynir, fel yn achos MA a PhD, ynghyd ag amseru'r flwyddyn academaidd gyda'r canlyniadau a ddisgwylir o fis Gorffennaf/Awst ymlaen.
*Cynyddu lefelau sgiliau'r rhai sydd â sgiliau isel os o gwbl (So2.1)*: Mae'r rhagolygon yn uchel yn erbyn targedau'r rhaglen, o ystyried y swm cymharol isel a neilltuwyd hyd yma (58% ar gyfartaledd), ac mae'r cyflawniadau hyd yma yn galonogol. Yr eithriad yw cyfranogwyr heb ddim cymwysterau ffurfiol; mae hyn oherwydd ei bod yn profi'n anodd diffinio ystyr 'dim cymwysterau ffurfiol'. Mae rhai gweithrediadau yn nodi bod gweithwyr sgiliau isel iawn yn aml yn dweud bod ganddynt o leiaf ryw fath o gymhwyster blaenorol (e.e. dyfarniad lefel mynediad) sy'n golygu eu bod yn cofnodi llai o gyfranogwyr 'heb gymwysterau' na'r disgwyl.
*Lefelau sgiliau canolraddol ac uwch (SO2.2):* Ledled Cymru disgwylir rhagori ar bob targed a chanlyniad. Yn galonogol, yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae data hawliadau'n dangos bod 44% o nifer darged y cyfranogwyr eisoes wedi'i chyflawni, tra bo'r ffigur hwn hyd yn oed yn uwch (64%) yn Nwyrain Cymru.
*Gweithgarwch Ymchwil ac Arloesedd (SO2.3 yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig):* Mae nifer y cyfranogwyr a ragwelir yn is na thargedau'r rhaglen y gellid bod wedi'u disgwyl ar sail pro rata yn erbyn y swm ariannol a neilltuwyd. Efallai bod hyn yn adlewyrchu natur fwy arloesol yr amcan hwn a diffyg data hanesyddol ar gyfer pennu targedau'r rhaglen. Mae'r targed hwn bellach yn ymddangos yn rhy uchel o ystyried bod gweithgarwch yn y maes hwn yn gyfyngedig i feysydd 'her fawr' Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru a bod allbynnau (e.e. doethuriaethau) yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w cyflawni. Yn galonogol, mae lefel is y cyfranogwyr wedi'i lliniaru i ryw raddau gan y ffaith y disgwylir i gyfran sylweddol uwch o'r cyfranogwyr hynny gyflawni canlyniadau allweddol. Ar sail y dadansoddiad hwn, mae'r canlyniadau dipyn yn agosach mewn termau gwerth absoliwt i'r hyn a ddisgwylir yn y rhaglenni; ond amser a ddengys a fydd modd nodi rhai a all lenwi'r bwlch er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg.
*Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu (SO2.4 WWV/SO2.3 EW)*: Mae'r targedau ar gyfer y ddwy raglen yn unol yn fras â'r disgwyliadau, er bod cyfran y cyflawniadau hyd yma ar hyn o bryd yn uwch yn ardal rhaglen Dwyrain Cymru.

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

## Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc

| Amcan Penodol | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ESF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ESF | |
| AP3.1: Diweithdra ymhlith ieuenctid | 6 | £107.7m | £97.9m | 91% | 6 | £36.0m | £29.1m | 81% |
| AP3.2: Cyrhaeddiad ac ymgysylltu ieuenctid | 5 | £68.3m | £42.0m | 61% | 3 | £12.0m | £7.8m | 65% |
| AP3.3: STEM | 1 | £10.0m | £1.7m | 17% | n/a | n/a | n/a | n/a |
| AP3.4: Blynyddoedd cynnar | 1 | £9.8m | £4.2m | 42% | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 3** | **13** | **£195.8m** | **£145.7m** | **74%** | **9** | **£48.0m** | **£36.9m** | **77%** |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

## Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni

| Gweithrediadau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ESF | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ESF |
| Healthy Working Wales - Out of Work Services - 16-24 (Welsh Government) | £2.7m | £2.0m | £1.4m | £0.7m |
| Inspire 2 Work (Blaenau Gwent County Borough Council) | £7.3m | £5.4m | | |

Cymeradwywyd £60.8m o ESF ychwanegol yn y ddwy raglen ers cyfarfod diwethaf PMRh, sy'n golygu bod y swm a neilltuwyd dan y Flaenoriaeth wedi cyrraedd 74% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 77% yn Nwyrain Cymru. Mae'r portffolio o weithrediadau yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â diweithdra a chyrhaeddiad ieuenctid, ac i bobl y dosberthir eu bod yn NEET neu'n debygol o fod yn NEET.
Mae cymeradwyaethau newydd ers cyfarfod diwethaf PMRh yn cynnwys £2.7m o ESF a ddyfarnwyd i **Cymru Iach ar Waith – Y Gwasanaeth Di-waith – 16-24 oed** ledled Cymru dan arweiniad Llywodraeth Cymru a fydd yn ceisio cefnogi pobl ifanc y mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio arnynt a/neu y mae ganddynt broblemau iechyd meddwl i gael addysg neu gyflogaeth. Mae £5.4 miliwn o ESF hefyd wedi'i gymeradwyo yn ardal rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar gyfer gweithrediad **Ysbrydoli i Weithio** dan arweiniad CBS Blaenau Gwent a luniwyd er mwyn nodi anghenion pobl NEET 16-24 oed a'u diwallu wrth eu hintegreiddio'n gynaliadwy yn y farchnad lafur.
Ar ben y cymeradwyaethau newydd hyn, dyfarnwyd £47.7m o ESF (£38m yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £9.7m yn Nwyrain Cymru) er mwyn estyn gweithrediadau presennol **Hyfforddeiaethau** dan arweiniad LlC a £5m o ESF ychwanegol (£4m yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £1m yn Nwyrain Cymru) er mwyn estyn gweithrediadau **Cymunedau am Waith** dan arweiniad LlC.
Mae WEFO yn gweithio'n agos gyda buddiolwyr a'r rhai sy'n datblygu gweithrediadau dan y flaenoriaeth hon ochr yn ochr â'r rhai yn y flaenoriaeth sy'n ymwneud â thlodi er mwyn sicrhau y caiff portffolio a rhaglen gweithrediadau cydlynol ac integredig eu datblygu, yn enwedig y rhai sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd a chanlyniadau cyflogaeth. Mae WEFO yn parhau i gynnal cyfarfodydd â buddiolwyr gweithrediadau i drafod gweithgarwch, eu hannog i

gyflawni'n gydweithredol a nodi unrhyw fylchau sy'n dod i'r amlwg neu ddyblygu o ran darpariaeth.

## Atodiad 1: Diweddariad ERDF

## Tabl 3: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP3.1 Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET) | Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) | 42,700 | 46,866 | 6,403 | 21,200 | 26,887 | 2,790 |
| | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sy'n ennill cymwysterau wrth adael - ag addysg gynradd neu uwchradd is | 20% | 41% | 0% | 20% | 43% | 0% |
| | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sydd mewn addysg/hyfforddiant wrth adael | 17% | 17% | 25% | 17% | 17% | 27% |
| | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sy'n mynd i gyflogaeth wrth adael | 28% | 31% | 11% | 28% | 32% | 13% |
| AP3.2 Lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sy'n wynebu risg o ddod yn NEET | Cyfranogwyr sydd mewn Perygl o fod yn NEET (11-24 mlwydd oed) | 49,700 | 16,064 | 1,622 | 13,000 | 6,236 | 392 |
| | Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sy'n ennill cymwysterau wrth adael - ag addysg gynradd (FfCChC 1) neu uwchradd is (FfCChC 2) | 7% | 14% | 0% | 27% | 17% | 2% |
| | Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sy'n mynd i addysg/hyfforddiant wrth adael | 19% | 8% | 6% | 18% | 12% | 1% |
| | Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sydd â llai o berygl o fod yn NEET wrth adael | - | 58% | 12% | - | 59% | 4% |

# Atodiad 1: Diweddariad ERDF

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP3.3 Cynyddu lefelau cofrestru a chyrhaeddiad pynciau STEM ymhlith pobl ifanc 11-19 oed | Pobl Ifanc 11 -19 oed - Dynion | 8,400 | 2,160 | 951 | n/a | n/a | n/a |
| | Pobl Ifanc 11 -19 oed - Menywod | 15,000 | 2,830 | 1,293 | n/a | n/a | n/a |
| | Pobl Ifanc 11-19 oed sy'n cwblhau hyfforddiant mewn mathemateg Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg - Dynion | 55% | 63% | 19% | n/a | n/a | n/a |
| | Pobl Ifanc 11-19 oed sy'n cwblhau hyfforddiant mewn mathemateg Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg - Menywod | 55% | 34% | 6% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - Dynion | 45% | 16% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - Menywod | 45% | 4% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| AP3.4 Cynyddu sgiliau'r gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant - dynion | 300 | 73 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant - menywod | 2,700 | 1,370 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau wrth adael - Dynion | 77% | 77% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau wrth adael - Menywod | 77% | 76% | 0% | n/a | n/a | n/a |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

Mae'r perfformiad cyffredinol ar gyfer y flaenoriaeth hon yn addawol ar y cyfan gyda thros 10,000 o gyfranogwyr hyd yma.
*Lleihau NEET (SO3.1):* Mae rhagolygon y prosiect yn eithaf uchel o'u cymharu â'r swm a neilltuwyd a dylai roi cyfle i'r gweithrediadau sy'n weddill dargedu meysydd arbenigol a materion penodol. Mae'r perfformiad cyffredinol hyd yma yn gadarnhaol ar y cyfan yn erbyn y proffil, ond mae cynnydd yn erbyn y canlyniadau'n gymysg gyda niferoedd uwch o gyfranogwyr yn mynd ymlaen i addysg neu hyfforddiant, yn hytrach na chyflogaeth neu ennill cymwysterau. Mae tystiolaeth anecdotaidd o'r gweithrediadau'n awgrymu bod hyn o ganlyniad i amseru.
*Wynebu risg o ddod yn NEET (SO3.2):* Mae hwn yn faes newydd o ymyrryd gyda gweithgarwch mwy arloesol â data hanesyddol prin yn sail i dargedau dangosyddion. Mae'r lefelau adrodd ar weithgarwch isel yn adlewyrchu'r amserlenni wrth gael systemau cyflawni ar waith a natur fwy arloesol yr ymyriadau angenrheidiol. Mae'n debygol bod y rhwystrau cymhleth a wynebir gan y garfan hon o gyfranogwyr yn arwain at ymyriadau hwy a mwy heriol na'r rhai a ddisgwyliwyd.
*Astudio pynciau STEM (SO3.3. Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig):* Mae ymgysylltu â chyfranogwyr yn unol â'r proffil gyda'r cydbwysedd rhwng dynion a merched yn dangos gwelliant. Nid yw'r cynnydd yn erbyn canlyniadau yn unol â'r proffil, gan adlewyrchu mwy o ffocws ar recriwtio, sydd wedi arwain at arafwch cyflawni ac effaith ymyriadau cyflawni hwy na'r rhai a gynlluniwyd.
*Gweithlu gofal plant y blynyddoedd cynnar (SO3.4 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig):* Mae'r rhagolygon cyffredinol yn unol â'r swm a neilltuwyd hyd yma, er bod ychydig mwy o ogwydd tuag at gyfranogwyr benywaidd. Gellir priodoli'r diffyg cyflawniadau i'r ffaith bod darparwyr hyfforddiant i roi cymorth i gyfranogwyr wedi cael eu caffael yn hwyr, ond mae hyn wedi'i gwblhau ac mae'r broses gyflawni wedi dechrau bellach.

## Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol

| | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ESF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ESF | |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 4** | 6 | £12.8m | £14.9m | 116% | 5 | £3.3m | £2.8m | 87% |

Ffynhonnell: SCEC, 15/01/2017

## Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni

| Gweithrediadau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ESF | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ESF |
| WEFO TA (Welsh Government) | £15.9m | £8.9m | £4.0m | £2.0m |

Sefydlwyd pedwar Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol i helpu i wella'r ffordd rydym yn cyflwyno ac yn rheoli rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020. Maent wedi'u lleoli yn y gogledd, yn y canolbarth, ym Mae Abertawe ac yn y de-ddwyrain.

Maent yn ychwanegu gwerth at y ffordd y mae WEFO yn cyflwyno ac yn rheoli'r rhaglenni drwy sicrhau y caiff y gwaith hwn ei integreiddio'n rhanbarthol. Maent hefyd yn cyfrannu at y newid tuag at fodel cyflawni mwy strategol gyda fframwaith cliriach ar gyfer blaenoriaethu economaidd drwy sicrhau cysoni rhanbarthol a chydlyniant gweithrediadau. Un o brif swyddogaethau'r timau yw hwyluso'r broses o brawfesur gweithrediadau a gynigir o safbwynt rhanbarthol er mwyn rhoi barn ranbarthol i WEFO ynghylch y graddau y mae'r holl weithrediadau arfaethedig yn gyson â'r strategaethau perthnasol ac ymyriadau a gweithgareddau ehangach ac, ar adegau, hwyluso'r broses o flaenoriaethu rhai gweithrediadau arfaethedig yn rhanbarthol yn unol â chais gan WEFO (er enghraifft, ar gyfer Amcan Penodol 4.4 ERDF). Mae'r timau hefyd yn gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn perthynas â phrawfesur o safbwynt rhanbarthol ac ymgysylltu ynglŷn â gweithrediadau ESF.

Mae'r holl weithrediadau Cymorth Technegol bellach wedi'u cymeradwyo.

**Adran 1: Rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig (WGRC-RDP) Neilltuo cyllid**

Mae'r adran hon yn manylu ar y cynnydd ariannol presennol dan Raglen WGRC-RDP 2014-2020.

Dengys Tabl 1 y gwariant hyd yma, swm Grant yr UE a neilltuwyd dan Raglen WGRC-RDP2014-2020, ynghyd â Grant yr UE y gellid ei neilltuo o bosibl os bydd y ceisiadau hynny a wahoddwyd dan gylchoedd Datganiadau o Ddiddordeb a'r ceisiadau llawn sy'n cael eu hasesu yn mynd rhagddynt.

**Tabl 1: Gwariant, neilltuo cyllid a Chynllunio Busnes**

| Gwariant £'m | | Neilltuo cyllid £'m | | Chynllunio Busnes £'m | |
|---|---|---|---|---|---|
| CYFANSWM | EAFRD | CYFANSWM | EAFRD | CYFANSWM | EAFRD |
| £45.2m | £33.9m | £527.3m | £330.1m | £36.0m | £17.8m |

**Diweddariad Cyffredinol o'r Rhaglenni**

Mae WGRC-RDP2014-2020 yn parhau i wneud cynnydd da ers iddi gael ei chymeradwyo ar 28 Mai 2015.

Un o ofynion y Comisiwn Ewropeaidd yw nad yw ceisiadau i Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn cael eu dethol ar sail y cyntaf i'r felin. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, bydd cynlluniau dan WGRC-RDP 2014-2020 yn agor ac yn cau ar gyfer ceisiadau'n gyfnodol drwy gydol oes y rhaglen, yn dibynnu ar ddyraniadau ariannol y rhaglen sydd ar gael.

O gynnwys cymeradwyaethau a chylchoedd datganiadau o ddiddordeb, mae cyfanswm o £563m wedi ei neilltuo, y mae £348m ohono yn arian yr UE. [1] Mae rhannau o'r rhaglen ar gam mwy datblygedig o ran cyflawni a chymeradwyo nag eraill; dylid disgwyl hyn o ystyried yr amrywiaeth eang o weithgareddau y gellir eu cefnogi drwy'r rhaglen a'r cam y mae'r broses o gyflawni rhaglen wedi'i gyrraedd ar hyn o bryd. O ran y gyfres o gynlluniau amaeth-amgylchedd-hinsawdd Glastir a choedwigaeth, cofnodwyd gwariant o ychydig dan £44.97m, y mae £33.67m yn arian yr UE. Mae hyn yn golygu gwariant cyffredinol o £45.24m ar y Rhaglen gyda £33.94m o EAFRD. Bydd y gwerthoedd hyn yn cynyddu ymhellach wrth i geisiadau sy'n cael eu harfarnu gael eu cymeradwyo.

O ran cynlluniau economaidd-gymdeithasol yn y rhaglen, gwahoddwyd cyfanswm o 312 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno cais llawn. Hyd yma, mae 196 o geisiadau wedi dod i law. Mae cyfanswm o 37 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo gyda chyfanswm dyraniad o bron £38m. O gynnwys ceisiadau uniongyrchol a LEADER, mae hyn yn dod â chyfanswm y dyraniad ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd i £158.24m

Bydd hyn yn cynyddu ymhellach dros y misoedd sydd i ddod o ganlyniad i gyfnodau datganiadau o ddiddordeb diweddar.

Mae nifer o gyfnodau datganiadau o ddiddordeb wedi agor hyd yma, yn y Rhaglen; bydd rhagor yn agor dros y 12 mis nesaf i gynnwys y cynlluniau canlynol:

- Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig dan Fesur 7 (£3m)
- Glastir - Adfer Coetir dan Fesur 8.4 (£1m) – i'w gadarnhau 2017
- Grant Cynhyrchu Cynaliadwy dan Fesur 4.1 (£6m) – i'w gadarnhau 2017

[1] Mae hyn yn unioni gwall a wnaed yn yr adroddiad cynnydd diwethaf.

- Grantiau Bach Glastir dan Fesur 4.4 (£1.5m) – Rhagfyr 2016
- Glastir - Creu Coetir dan Fesurau 8.1 ac 8.2 (£1.7m) – Mawrth 2017

**Cynnydd dangosyddion**

Ar y cam hwn o gyflawni'r rhaglen, nid oes modd llunio rhagolygon yn erbyn dangosyddion ar gyfer pob Mesur/Maes Canolbwyntio. Darperir gwerthoedd targed cymeradwy[2] yn ôl Maes Canolbwyntio hyd yn oed lle nad yw data rhagolygon ar gael eto.

Gellir priodoli'r amrywiannau rhwng rhagolygon a ffigurau gwirioneddol a nodir yn erbyn targedau dangosyddion ar gyfer y rhaglen i'r gwahaniaethau yn y ffordd y caiff elfennau'r rhaglen sy'n ymwneud â thir ac agweddau economaidd-gymdeithasol eu cyflawni. Ar gyfer y targedau allbwn nad oes rhagolygon ar eu cyfer eto, dylai data fod ar gael yn ystod y misoedd sydd i ddod, yn sgil canlyniadau a chymeradwyaethau o gyfnodau datganiadau o ddiddordeb. Bydd angen monitro gweithrediadau cymeradwy a chytundebau'n fanwl er mwyn sicrhau y caiff y canlyniadau a ddisgwylir eu sicrhau.

[2] Caiff gwerthoedd targedau eu diwygio unwaith y bydd addasiad y rhaglen gyntaf wedi'i dderbyn ac wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd.

**Adran 2: Cynnydd yn ôl Echel Blaenoriaeth**
**Blaenoriaeth 1: Annog pobl i gyfnewid gwybodaeth ac i arloesi ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth, ac mewn ardaloedd gwledig**
**Tabl 2: Cynnydd yn erbyn dangosyddion**

| Maes Ffocws | Mesur | Allbynnau | Targed | Rhagolwg |
|---|---|---|---|---|
| FA 1(a) Meithrin arloesi a'r sylfaen gwybodaeth mewn ardaloedd gwledig | 1 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m) | £50m | £82.3 |
| | 2 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m) | £13.07m | £11.5 |
| | 16 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m) | £71.8m | £1.7 |
| FA 1(b) Cryfhau'r cysylltiadau rhwng amaethyddiaeth a coedwigaeth ac ymchwil arloesi | 16.1 | Nifer y grwpiau gweithredol EIP I'w cefnogi (sefydliad a gweithrediad) | 45 | 45 |
| | 16.2 i 16.9 | Nifer y gweithrediadau cydweithredu eraill (grwpiau, rhwydweithiau/clystyrau, prosiectau peilot….) (16.2 i 16.9) | 1,102 | 0 |
| FA 1(c) Meithrin dysgu gydol oes a hyfforddiant galwedigaethol yn y sectorau amaethyddol a choedwigaeth | 1.1 | Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant | 13,000 | 13,500 |

WEFO, 31/12/2016

**Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Gwasanaethau Cynghori - Mesurau 1 a 2**
Trosolwg

Dechreuodd y contractau newydd ar gyfer y rhaglen, a elwir yn Cyswllt Ffermio, ar 1 Hydref 2015, gan gyd-daro â diwedd y gwasanaeth blaenorol. Mae'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth a'r Gwasanaeth Cynghori yn cael eu darparu gan Menter a Busnes. Lantra yng Nghymru sy'n arwain y gwaith o gyflwyno'r Rhaglen Dysgu Gydol Oes a Datblygu. Mae cymhwysedd i gymryd rhan yn y rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth newydd wedi cael ei ehangu i alluogi mwy o fusnesau ac unigolion sy'n gweithio yn y sectorau amaethyddol, coedwigaeth a bwyd i gymryd rhan, gan gynnwys myfyrwyr. Mae'n gyson â phecynnau a gweithgareddau cymorth busnes eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Busnes Cymru a Cymru Effeithlon.
Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth: Bydd y gweithgarwch yn canolbwyntio ar wella perfformiad amgylcheddol, effeithlonrwydd cynhyrchu, proffidioldeb, a sicrhau mwy o ymddygiad ac agweddau sy'n canolbwyntio ar fusnes drwy arferion rheoli cadarnhaol. Fel rhan o'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, mae rhwydwaith Arddangos newydd i Gymru gyfan wedi cael ei sefydlu, sy'n cynnwys y canlynol:

- Safleoedd arloesi, wedi'u lleoli mewn safleoedd amaeth-academaidd blaenllaw yng Nghymru.
- Safleoedd Arddangos, sef rhwydwaith o safleoedd hirdymor sy'n ystyried y ffordd y gellir integreiddio technoleg newydd a/neu ddulliau rheoli newydd; codi safonau effeithlonrwydd ar y fferm; gostwng mewnbynnau, cynyddu allbynnau; proffidioldeb.
- Safleoedd ffocws, sy'n arddangos prosiectau 'untro' neu dreialon ar amrywiaeth eang o bynciau.

Mae Cyfnewidfa'r Ffermwyr hefyd yn ddatblygiad newydd gan Cyswllt Ffermio, sy'n galluogi ymgeiswyr llwyddiannus i deithio i fferm neu ddaliad coedwigaeth blaenllaw yn yr UE i ddysgu am ffyrdd newydd a gwell o weithio yn y sectorau. Y nod yw eu bod yn ystyried dulliau gwahanol o reoli eu busnes, yn ehangu eu gwybodaeth, eu gallu technegol a'u harbenigedd rheoli, ac yn rhoi cyfleoedd datblygu newydd, yn bersonol ac yn y busnes. Cyhoeddwyd y grŵp cyntaf o ymgeiswyr llwyddiannus yn Sioe Frenhinol Cymru eleni.

Rhaglen Dysgu Gydol Oes a Datblygu: y nod yw sicrhau diwydiant ffermio a choedwigaeth mwy proffesiynol a chaiff ei gyflawni drwy gyfuniad o hyfforddiant uniongyrchol a darpariaeth dysgu ar-lein. Bydd y rhaglen yn rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu sgiliau busnes a gweddnewid ac yn cynnig cyrsiau â mwy o ffocws a strategaeth.

Gwasanaeth Cynghori: Bydd y gwasanaeth cynghori yn rhoi cyngor annibynnol a phwrpasol i unigolion a grwpiau er mwyn gwella dulliau rheoli cynaliadwy a pherfformiad economaidd ac amgylcheddol ffermio, coedwigaeth a gweithgynhyrchu bwyd BBaChau sy'n gweithredu mewn ardaloedd gwledig.

EIP-AGRI – Cymru: Mae Cyswllt Ffermio yn helpu i ddatblygu EIP-AGRI Cymru drwy wahanol ddulliau, yn bennaf y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth a Broceriaeth Gwybodaeth. Caiff y cymorth hwn ei anelu at hwyluso datblygu Grŵp Gweithredol, gyda hyd at £40k ar gael ar gyfer pob grŵp i ddatblygu ei syniadau. Y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth, sydd wedi'i lleoli yn IBERS, Aberystwyth, fydd y pwynt cyswllt cyntaf i ffermwyr a choedwigwyr yng Nghymru er mwyn cofrestru eu diddordeb mewn datblygu eu syniadau arloesol a holi am ddarpar bartneriaid addas. Dim ond prosiectau y mae'r Ganolfan yn tybio eu bod yn addas a gaiff eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru, a'u gwahodd i gyflwyno cais llawn. Gall brocer gwybodaeth gefnogi'r grŵp drwy'r cam datblygu, a bod ar gael i hwyluso'r prosiect os bydd ei gais yn llwyddiannus.

Menter: Mae hon yn nodwedd newydd. Mae llwyfan Menter yn fframwaith gweithgarwch integredig, sy'n dwyn ynghyd amrywiol elfennau o wasanaethau Cyswllt Ffermio a fydd yn helpu symudedd yn y sector amaethyddiaeth a'r sector coedwigaeth yng Nghymru. Bydd yn nodi ac yn paru perchenogion tir sefydledig sydd am ymrwymo i gontract neu rannu ffermio, gan roi cyfle i ddarpar ffermwyr newydd neu newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant.

Nid oes cyflawniadau/gwariant ar gael i'w hadrodd oherwydd y broblem PPIMS barhaus/atgyweiriad i'r system. Mae'r gwaith hwn ar droed gyda datblygwyr a phan fydd ar gael, bydd yr holl daliadau ac adrodd ar ddangosyddion ar gael.

O ganlyniad i'r atgyweiriad PPIMS, bu rhai newidiadau i'r targedau a ragwelwyd gan ddangosyddion a adlewyrchir yn y ffigurau diwygiedig newydd a roddir. Pan fydd y comisiwn yn cytuno ar y targedau newydd, bydd angen adlewyrchu hyn yn y targedau ar gyfer pob dangosydd rhaglen.

**Blaenoriaeth 2: Gwella hyfywedd a chystadleurwydd ffermydd ym mhob maes amaethyddol ac ym mhob rhanbarth gan hyrwyddo technolegau fferm arloesol a rheolaeth gynaliadwy ar gyfer coedwigoedd**

**Tabl 3: Cynnydd yn erbyn dangosyddion**

| Maes Ffocws | Mesur | Allbynnau | Targed | Rhagolwg |
|---|---|---|---|---|
| FA 2(a) Hwyluso ailstrwythuro ffermydd s'yn wynebu problemau strwythurol mawr, yn enwedig ffermydd â gradd isel o gyfranogiad yn y farchnad, ffermydd sy'n canolbwyntio ar sectorau penodol yn y farchnad a ffermydd sydd angen arallgyfeirio amaethyddol | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant | 8,560 | 10,010 |
| | 1.1 | Nifer o diwrnodau o hyfforddiant a roddwyd | 16,160 | 8,008 |
| | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau | £3.7 | £3.2 |
| | 1.2 | Nifer o gweithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd | 20 | 1,395 |
| | 1.3 | Nifer gweithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd | 10 | 39 |
| | 1.1 -1.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m) (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos) | £34.8 | £42.7 |
| | 2.1 | Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd | 5,160 | 2,963 |
| | 2.3 | Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd | 110 | 260 |
| | 2.1 - 2.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m) | £6.55 | £8.45 |
| | 4.1 | Nifer o daliadau a gefnogwyd ar gyfer buddsoddiad mewn daliadau amaethyddol | 2,431 | 0 |
| | 4.1 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m) | £57.6 | £0.0 |
| | 4.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m) ar gyfer buddsoddiadau mewn seilwaith | £1.8 | £0.0 |
| | 4 | Cyfanswm gwariant (£'m) (cyhoeddus a preifat) | £148.4 | £0.0 |
| | 4 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m) | £59.4 | £0.0 |
| | 16 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m) | £0.4 | £0.3 |

WEFO, 31/12/2016

Maes Canolbwyntio 2a

Hyd yma, gwahoddwyd cyfanswm o 81 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus a dau gais uniongyrchol i gyflwyno cais llawn dan Flaenoriaeth 2 (Maes Canolbwyntio 2a) o WGRC-RDP 2014-2020.

Mae cyfanswm o 45 o geisiadau llawn ar gyfer y Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy dan Fesur 4.1 wedi dod i law, sy'n golygu neilltuo cyfanswm o £7.5m. O'r 45 o geisiadau hyn sydd wedi dod i law hyd yma mae un wedi'i gymeradwyo, gyda chyfanswm dyraniad o £3.7m.

Caiff ceisiadau llawn eu cyflwyno hyd at ddyddiad cau'r cyfnod cyllido a chânt eu prosesu wrth iddynt ddod i law. Bydd adroddiadau i Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni yn y dyfodol yn dangos y cynnydd hyd yma o ran gwariant a dangosyddion y ceisiadau llawn hyn.

Ar hyn o bryd, ni chaiff data ar ddangosyddion eu cofnodi cyn i broffil cyflawni'r gweithrediad gael ei gwblhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu'r data hyn pan gaiff y cais llawn ei gyflwyno.

Mae'r cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy dan Fesur 4.1 yn rhoi cymorth i ffermwyr wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliad amaethyddol yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru a'r diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru ar gyfer busnesau fferm mwy cynaliadwy, proffidiol a chydnerth. Ei nod yw darparu buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau a chyfarpar sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid, storio cnydau, storio a thrafod cynnyrch, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a rheoli pridd a chnydau.

Mae grantiau yn cyfrif am gyfraniad o 40% a gallant amrywio o isafswm o £16k hyd at uchafswm o £400k i gynyddu buddsoddi ar y fferm, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd o ran adnoddau er mwyn gwella perfformiad technegol.

Hyd yma, cynhaliwyd tri chylch o'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, y cyntaf am gyllideb o £2.0m gyda 12 o fuddiolwyr a'r ail am £6.0m a 41 o fuddiolwyr. Hyd yma, nid oes unrhyw daliadau wedi'u gwneud i fuddiolwyr. Agorodd trydydd cyfnod ym mis Medi 2016, unwaith eto, gyda chyllideb o £6.0m. Dan y trydydd cylch o ddatganiadau o ddiddordeb, cyflwynwyd 154 ohonynt a gwahoddwyd 40 o fuddiolwyr i ail gam y broses gwneud cais.

**Blaenoriaeth 3: Hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth**
**Tabl 4: Cynnydd yn erbyn dangosyddion**

| Maes Ffocws | Mesur | Allbynnau | Targed | Rhagolwg |
|---|---|---|---|---|
| FA 3(a) Integreiddio gwell o gynhyrchwyr cynradd yn y gadwyn fwyd drwy gynlluniau o ansawdd, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chylchoedd cyflenwi byr, grwpiau cynhyrchwyr a sefydliadau cydadrannol | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant | 1,000 | 1,150 |
| | 1.1 | Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd | 1,000 | 3,645 |
| | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau | £0.2 | £27.2 |
| | 1.2 | Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd | 15 | 91 |
| | 1.1 -1.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos) | £2.3 | £29.8 |
| | 2.1 | Nifer o buddiolwyr a gynghorwyd | 600 | 303 |
| | 2.3 | Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd | 110 | 27 |
| | 2.1 - 2.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £0.8 | £0.9 |
| | 4.1 + 4.2 | Nifer o weithrediadau a gefnogwyd ar gyfer fuddsoddiad (ee mewn taliadau amaethydool, mewn prosesu ac mewn marchnata cynnyrch amaethyddol) (4.1 and 4.2) | 120 | 0 |
| | 4 | Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat) | £99.5 | £0.0 |
| | 4 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £40.0 | £0.0 |
| | 16.4 | Nifer o daliadau amaethyddol yn cymryd rhan mewn cydweithredu/hybu lleol ymhlith gweithredwyr yn y gadwyn gyflenwi (16.4) | 165 | 0 |
| | 16 | Nifer y gweithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (nid EIP) | 80 | 0 |
| | 16 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £22.2 | £0.1 |

WEFO, 31/12/2016

<u>Maes Canolbwyntio 3a</u>

Hyd yma, gwahoddwyd 67 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus a phedwar cais uniongyrchol i gyflwyno cais llawn dan Flaenoriaeth 3 (Maes Canolbwyntio 3a) y Rhaglen.

Hyd yma, mae 53 o geisiadau llawn wedi dod i law, y mae 50 ohonynt ar y cam arfarnu neu wedi'u cymeradwyo, sy'n golygu neilltuo cyfanswm o £52.4m. O'r rhain, mae:

- 19 o geisiadau llawn ar gyfer Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio dan Fesur 16.4 wedi dod i law, sef cyfanswm o £6.4m.
- 28 o geisiadau llawn ar gyfer Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd dan Fesur 4.2 wedi dod i law, sef cyfanswm o £24.1m.
- 3 chais llawn ar gyfer y Cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi dan Fesur 1.1 wedi dod i law, sef cyfanswm o £21.9m
- O'r 53 o geisiadau llawn sydd wedi dod i law hyd yma mae 25 wedi cael eu cymeradwyo, gyda chyfanswm dyraniad o £34.3m.

Caiff ceisiadau llawn eu cyflwyno hyd at ddyddiad cau'r cyfnod cyllido a chânt eu prosesu wrth iddynt ddod i law. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn dangos cynnydd hyd yma o ran gwariant a dangosyddion y ceisiadau llawn hyn.

Ar hyn o bryd, ni chaiff data ar ddangosyddion eu cofnodi cyn i broffil cyflawni'r gweithrediad gael ei gwblhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu'r data hyn pan gaiff y cais llawn ei gyflwyno.

# Blaenoriaeth 4: Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth
# Tabl 5: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Maes Ffocws | Mesur | Allbynnau | Targed | Rhagolwg | Cyflawnwyd hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth 4: Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant | 995 | 1,040 | 0 |
| | 1.1 | Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd | 1,911 | 832 | 0 |
| | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau | £0.4 | £0.3 | £0.0 |
| | 1.2 | Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd | 55 | 145 | 0 |
| | 1.3 | Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd | 14 | 4 | 0 |
| | 1.1 -1.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos) | £4.2 | £4.4 | £0.0 |
| | 2.1 | Nifer o buddiolwyr a gynghorwyd | 1,330 | 758 | 0 |
| | 2.3 | Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd | 114 | 67 | 0 |
| | 2.1 - 2.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £2 | £2 | £0 |
| | 4.4 | Nifer o weithrediadau cymorth ar gyfer fuddsoddiadau anghynhyrchiol (4.4) | 16,425 | 9,453 | 99 |
| | 4 | Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat) | £169.5 | £107.0 | £0.4 |
| | 4 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £169.5 | £107.0 | £0.4 |
| | 8.1 | Arwynebedd (ha) i gael ei coedwigo (sefydliad yn unig-8.1) | £2,160.0 | £2,000.0 | £106.0 |
| | 8.1 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £11.5 | £10.6 | £0.5 |
| | 8.2 | Arwynebedd (ha) i'w sefydlu mewn systemau amaeth-coedwigaeth (8.2) | 147 | 50 | 1 |
| | 8.2 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.2) | £0 | £0 | £0 |
| | 10.1 | Cyfanswm arwynebedd (ha) o dan hinsawdd amaeth-amgylcheddunder (10.1) | | | |
| | 10.1 | Arwynebedd Ffisegol (ha) o dan hinsawdd ameth-amgylchedd (10.1) | 688,000 | £528,010 | 676,469 |
| | 10.1 | Nifer o contractau a gefnogwyd | 11,585 | 7,338 | 6,877 |
| | 10.1 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£) (10.1+10.2) | £243.4 | £230.1 | £28.2 |
| | 11.1 | Nifer o daliadau a gefnogwyd | 400 | 201 | 112 |
| | 11.1 | Arwynebedd (ha) a trosglwywyd i ffermio organig | 48,000 | 11,153 | 11,153 |
| | 11.2 | Nifer y daliadau a gefnogwyd | 600 | 341 | 441 |
| | 11.2 | Arwynebedd (ha) cynnal ffermio organig | 72,000 | 57,287 | 57,287 |
| | 11 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£) | £44.0 | £21.2 | £3.9 |
| | 16 | Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP) | 30 | 0 | 0 |
| | 16 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£) | £8.4 | £0.4 | £0.0 |

WEFO, 31/12/2016

| Maes Ffocws | Mesur | Allbynnau | Targed | Rhagolwg | Cyflawnwyd hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|---|
| Priority 4: Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth (ardal coedwigaeth) | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant | 105 | 130 | 0 |
| | 1.1 | Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd | 189 | 104 | 0 |
| | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau | £0.04m | £0.04m | £0.00m |
| | 1.2 | Nifer o gweithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd | 5 | 18 | 0 |
| | 1.3 | Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd | 1 | 1 | 0 |
| | 1.1 -1.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos) | £0.4 | £0.4 | £0.0 |
| | 2.1 | Nifer o buddiolwyr a gynghorwyd | 70 | 51 | 0 |
| | 2.3 | Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd | 6 | 4 | 0 |
| | 2.1 - 2.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £0.1 | £0.1 | £0.0 |
| | 8.3 | Nifer o fuddiolwyr ar gyfer camau gweithredu ataliol (8.3) | 0.25 | 0.00 | 0.00 |
| | 8.3 | Arwynebedd a gefnogwyd (ha) | 76,000 | 0 | 0 |
| | 8.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£) | £0.3 | £0.0 | £0.0 |
| | 8.4 | Nifer o fuddiolwyr a gefnogwyd | 55 | 0 | 41 |
| | 8.4 | Arwynebedd a gefnogwyd (ha) | 530 | 0 | 315 |
| | 8.4 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £1.2 | £0.0 | £0.8 |
| | 8.5 | Nifer o weithrediadau (fuddsoddiadau ar gyfer wella gwydnwch a werth ecosystemau coedwigaeth) (8.5) | 1,745 | 501 | 129 |
| | 8.5 | Ardaloedd sy'n gysylltiedig a fuddsoddiadau gwella gwydnwch a gwerth amgylcheddol ecosystemau coedwigoedd (8.5) | 32,850 | 7,000 | 335 |
| | 8.5 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £15.1 | £5.6 | £0.3 |
| | 15.1 | Nifer o contractau a gefnogwyd | 70 | 0 | 0 |
| | 15.1 | Ardaloedd dan gontract amgylchedd coedwig | 700 | 0 | 0 |
| | 15.1 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £0.3 | £0.0 | £0.0 |
| | 16 | Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP) | 215 | 0 | 0 |
| | 16 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £4.6 | £0.1 | £0.0 |

WEFO, 31/12/2016

Mae'r diweddariad ar gyfer y Flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar gynnydd dan Glastir hyd yma. Noder bod y naratif, yma, hefyd yn ymdrin â Meysydd Canolbwyntio 5d a 5e dan Flaenoriaeth 5. Ceir rhagor o fanylion isod.
Mae **Glastir** yn ymdrin â'r meysydd canolbwyntio canlynol:

- Glastir Sylfaenol, Glastir Uwch a Grantiau Bach Glastir - meysydd canolbwyntio 4a, 4b, 5d a 5e.
- Glastir - Tir Comin - Maes Canolbwyntio 4a.
- Glastir Organig - Maes Canolbwyntio 4c.
- Glastir - Creu Coetir - pob un o Feysydd Canolbwyntio Blaenoriaeth 4 a Maes Canolbwyntio 5e.
- Glastir - Rheoli ac Adfer Coetir - Meysydd Canolbwyntio 4a a 5e.

Mae **Mesur 10.1** yn cynnwys Glastir Sylfaenol, Glastir Uwch a Glastir - Tir Comin. Mae hefyd yn cynnwys taliadau amlflwydd ar sail arwynebedd ar gyfer coetiroedd fferm sy'n bodoli eisoes dan Glastir - Rheoli Coetir a chafwyd cyfanswm gwariant o £228m. Yn yr adroddiad blaenorol, nodwyd bod cyfanswm o 7,338 o gontractau ac arwynebedd o 528,010 hectar wedi'u cyflawni. Dylid nodi i'r ffigurau hyn gael eu cynnwys ar gam a'r ffigur a ragwelir ydynt. Y nifer wirioneddol o gontractau dan M.10.1 yw 6,877 sy'n cwmpasu arwynebedd o 676,469 hectar.
Mae **Glastir Sylfaenol** wedi sicrhau cyfanswm o 4,603 o gontractau (unwaith eto, y ffigur a ragwelir oedd y ffigur a nodwyd yn flaenorol), sef cyfanswm arwynebedd o 543,496 hectar o'i gymharu ag arwynebedd o 548,750 hectar a ragwelir. Ni chaiff

unrhyw gontractau Sylfaenol eraill eu cynnig, gan fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod ymyriadau wedi'u targedu'n fwy, megis y rhai dan Glastir Uwch a, bellach, Grantiau Bach Glastir yn fwy priodol er mwyn cyflawni ei hamcanion. Bydd cyfranogwyr Glastir Sylfaenol y mae eu contractau yn dod i ben ym mis Rhagfyr yn cael cyfle i wneud cais i Grantiau Bach Glastir, sef cynllun cyfalaf a ariennir drwy Fesur 4.4 sy'n mynd i'r afael â Meysydd Canolbwyntio 4a a 4b Blaenoriaeth 4, yn ogystal â Meysydd Canolbwytnio 5d a 5e Blaenoriaeth 5.

Bwriad Llywodraeth Cymru o hyd yw estyn contractau Glastir Sylfaenol sy'n ategu contractau Glastir Uwch er mwyn iddynt orffen ar yr un pryd. Byddai hyn yn golygu y byddai rhai contractau Glastir Sylfaenol yn cael eu hestyn rhwng 1 a 3 blynedd.

Mae **Glastir Uwch** bellach yn cynnwys 2,082 o gontractau ac, o'r rhain, mae 495 yn gontractau ar wahân, mae 1508 o gontractau wedi'u hategu gan Glastir Sylfaenol ac mae 79 o gontractau eraill yn rhan o Glastir - Tir Comin. Y gwariant dan y Rhaglen Datblygu Gwledig hon yw £7.8m ar gyfer Mesur 4.4 a £9.2m ar gyfer Mesur 10.1. Hyd yma, mae 55 o gynlluniau gwaith cyfalaf gweithrediadau wedi'u cwblhau gwerth £0.26m.

Cytunwyd ar gyfnod datganiadau o ddiddordeb ar gyfer cytundebau Glastir Uwch i ddechrau ar 1 Ionawr 2018 a chaiff ei gyhoeddi'n fuan. Gwerth a ragwelir y cyfnod datganiadau o ddiddordeb Glastir Uwch 2018 yw £18.360m.

Mae **Glastir - Tir Comin** bellach wedi cau ac mae'n cynnwys 197 o gontractau sy'n ymestyn dros 119,069 hectar o dir. Cyfanswm y gwariant dan y Rhaglen Datblygu Gwledig hon yw 1.3m ar gyfer Mesur 10.1. Cynigir estyniad i bob contract cymwys hyd at 2019, er mwyn sicrhau bod digon o amser i Gymdeithasau Pori ystyried dulliau ariannu eraill, megis y Cynllun Rheoli Cynaliadwy neu dalu am brosbectysau gwasanaethau ecosystem.

Mae **Mesur 11 - Glastir Organig** yn helpu ffermwyr i newid i arferion ffermio organig (Mesur 11.1) neu eu cynnal (Mesur 11.2). Ar ôl 3 gylch o geisiadau Glastir Organig, cafwyd 140 o gontractau, o'u cymharu â 201 a ragwelwyd a tharged o 400, i newid i arferion ffermio organig a 441 o gontractau, o'i gymharu â 341 a ragwelwyd a tharged o 600, i gynnal arferion ffermio organig, sy'n cwmpasu arwynebedd o 72,655 hectar (15,111 hectar ar gyfer Mesur 11.1 a 57,544 ar gyfer Mesur 11.2). Cyfanswm y gwariant ar gyfer Mesur 11 yw £3.9m. Caeodd y trydydd cylch ymgeisio ar gyfer Glastir Organig, gyda chyllideb o £1.5m, i ben ar 31 Hydref, gyda 153 o Ddatganiadau o Ddiddordeb wedi'u cyflwyno, sy'n cwmpasu arwynebedd o 16,628 hectar, gwerth £6,217,964 ac, felly, ymgymerwyd proses ddethol i aros o fewn y gyllideb a ddyrannwyd.
.

Dan **Fesur 8.1 - Glastir - Creu Coetir** crëwyd 107.59 hectar o goetir newydd. Mae'r rhan fwyaf wedi'i greu dan Fesur 8.1 – Coedwigo a chreu coetir, gyda dim ond 1 hectar dan Fesur 8.2 – Amaeth-goedwigaeth. Cyfanswm y gwariant hyd yma fu £0.68m, y mae £26k ohono wedi'i briodoli i Faes Canolbwyntio 5e. Ni wneir yr hawliadau cyntaf ar gyfer cynnal a chadw ac incwm a gollwyd tan SAF2017.

Agorwyd trydydd cylch ar gyfer Glastir - Creu Coedwig, gyda chyllideb o £1.7m ar 30 Awst a daeth i ben ar 14 Hydref. Daeth 95 o ddatganiadau o ddiddordeb i law gyda chyfanswm o 787.45 hectar o arwynebedd plannu wedi'i gyflwyno â gwerth cyfalaf o £2.8m. Bydd angen cynnal proses ddewis er mwyn cadw o fewn y gyllideb a ddyrannwyd.

Mae **Mesur 8.5 - Glastir - Rheoli Coetir** yn cynnwys contractau etifeddol yn unig o'r Rhaglen Datblygu Gwledig flaenorol ac fe'i telir drwy Fesur 8.5 ar gyfer taliadau cyfalaf a Mesur 10.1 ar gyfer taliadau amlflwydd sy'n seiliedig ar arwynebedd. Ar

hyn o bryd, mae 268 o gontractau ar waith, gyda gwariant gwerth £1.7m dan y Rhaglen Datblygu Gwledig hon ar gyfer Mesur 8.5.

Mae **Mesur 8.4 - Glastir - Adfer Coetir** yn rhoi cymorth i ailstocio coetiroedd llarwydd sydd wedi cael eu heintio neu eu peryglu gan y pathogen ffwngaidd *Phytophthora ramorum* a bu 4 chylch i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb dan y Rhaglen Datblygu Gwledig hon. Hyd yma, cafwyd gwariant o £0.75m dan y ddau gyfnod cyntaf, sy'n golygu bod arwynebedd o 317 hectar o goetir yn cael ei adfer a 230ha rhagor o blannu wedi ei chymeradwyo ar gyfer eu cwblhau erbyn Ebrill 2017. Bwriedir agor un gyfnod arall ar gyfer Glastir - Adfer Coetir ym mis Awst Mehefin 2017 gyda chyllidebau o £1.0m yr un. Agorodd y pedwerydd cylch o Glastir - Adfer Coetir, gyda chyllideb o £1m ar 30 Awst a daeth i ben ar 30 Medi. Cyflwynwyd 23 o Ddatganiadau o Ddiddordeb a oedd yn cwmpasu cyfanswm arwynebedd ailstocio o 122.61 hectar â gwerth cyfalaf o £289k. Gellid priodoli'r ffigur isel hwn i reolau cyfyngol presennol Glastir - Adfer Coetir ar gyfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS). Ar gyfer y cylch nesaf o Glastir - Adfer Coetir, caiff grant cynllunio rheoli ei gynnig er mwyn ei gwneud yn bosibl i gyflwr Safle Coetir Hynafol gael ei gadarnhau gan arbenigwr ac i gymysgedd ailstocio gael ei gymhwyso sy'n dibynnu ar allu'r safle i adfer, yn hytrach na'i leoliad, a ddylai annog mwy o reolwyr coetir i wneud cais.

**Mesur 2 – Cymorth cynghorol.** Dan y rhaglen hon, mae Glastir yn bwriadu defnyddio cymorth cynghorol i drefnu i gynlluniau rheoli dŵr gael eu cynnal ac i gynlluniau coetir gael eu dilysu yn erbyn Safon Coedwigaeth y DU gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Hefyd, mae angen defnyddio arbenigedd ymddiriedolaethau archeolegol Cymru i roi cyngor i Reolwyr Contract ar y dull rheoli mwyaf addas ar gyfer contractau Glastir Uwch. Hyd yma, ni ddyfarnwyd unrhyw gyllid.

At hynny, gwnaeth adroddiad panel Gwerthuso Annibynnol Glastir Uwch nifer o argymhellion gan gynnwys yr argymhelliad bod *angen mwy o arweiniad, cymorth a hyfforddiant o safon uwch ar Reolwyr Contract* a bod *angen mwy o ymweliadau dilynol a chyngor i Gontractau*. I'r perwyl hwn, dechreuodd Llywodraeth Cymru gaffael gwasanaeth a allai gyflawni cylch gwaith yr argymhellion hyn. Hyd yma, nid oes unrhyw gontract wedi'i ddyfarnu, gyda'r penderfyniad i ddyfarnu yn aros tan negodiadau Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU i warantu'r cyllid.

## Blaenoriaeth 5: Hyrwyddo effeithlonrwydd o ran adnoddau a chynorthwyo’r gwaith o symud at economi carbon isel, sy’n gallu gwrthsefyll effeithiau’r hinsawdd, yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth

## Tabl 6: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Maes Ffocws | Mesur | Allbynnau | Targed | Rhagolwg |
|---|---|---|---|---|
| FA 5(b) Cynyddu effeithlonrwydd yn y defnydd o ynni mewn amaethyddiaeth a phrosesu bwyd | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer o gyfranogwyr mewn hyfforddiant | 64 | 260 |
| | 1.1 | Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd | 124 | 208 |
| | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau | £0.02m | £0.08m |
| | 1.2 | Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd | 20 | 36 |
| | 1.3 | Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd | 5 | 1 |
| | 1.1 -1.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos) | £0.26m | £1.12m |
| | 2.1 | Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd | 98 | 83 |
| | 2.3 | Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd | 2 | 7 |
| | 2.1 - 2.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £0.21m | £0.24m |
| | 4.1, 4.2 & 4.3 | Nifer o weithgariadau a gefnogwyd ar gyfer buddsoddiad mewn taliadau amaethyddol, mewn prosesu a marchnata | 286 | 0 |
| | 4 | Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat) | £16.9 | £0.0 |
| | 4 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £6.8 | £0.0 |
| | 16 | Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP) | 20 | 0 |
| | 16 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £5.18 | £0.17 |

WEFO, 31/12/2016

| Maes Ffocws | Mesur | Allbynnau | Targed | Rhagolwg |
|---|---|---|---|---|
| FA 5(c) Hwyluso cyflenwad a defnydd adnoddau adnewyddadwy o ynni, o sgil-gynhyrchion, gwastraff, gweddillion a deunyddiau crai eraill nad ydynt yn fwyd at ddibenion y fio-economi. | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant | 68 | 260 |
| | 1.1 | Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd | 128 | 208 |
| | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm wariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau | £0.03m | £0.08m |
| | 1.2 | Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd | 20 | 36 |
| | 1.3 | Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd | 5 | 1 |
| | 1.1 -1.3 | Cyfanswm wariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos) | £0.3m | £1.11m |
| | 2.1 | Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd | 98 | 66 |
| | 2.3 | Nifer gynghorwyr a hyfforddwyd | 2 | 6 |
| | 2.1 - 2.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £0.17m | £0.19m |
| | 4.1 + 4.3 | Nifer o weithgareddiadau a gefnogwyd ar gyfer buddsoddiad (4.1, 4.3) | 187 | 0 |
| | 4 | Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat) | £4.0 | £0.0 |
| | 4 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £1.6 | £0.0 |
| | 7.2 | Nifer o weithgareddiadau a gefnogwyd ar gyfer buddsoddiad mewn seilwaith graddfa fechan yn cynnwys buddsoddiadau mewn ynni adnewyddiadwy ac arbed ynni (7.2) | 197 | 0 |
| | 7 | Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat) | £19.6 | £0.0 |
| | 7 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £16.3 | £0.0 |
| | 8.5 | Nifer o weithgareddiadau (buddsoddiadau i wella cydnerthu a gwerth systemau eco coedwigaeth (8.5) | 25 | 0 |
| | 8.5 | Ardaloedd sy'n gysylltiedig a fuddsoddiadau gwella gwydnwch a gwerth amgylcheddol ecosystemau coedwigoedd (8.5) | 1,870 | 0 |
| | 8.5 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £0.04m | £0.00m |
| | 8.6 | Nifer o weithgareddiadau ar gyfer fuddsoddiadau mewn technoleg coedwigaeth a prosesu cynradd/marchnata (8.6) | 250 | 0 |
| | 8.6 | Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat) (8.6) | £19.3 | £0.0 |
| | 8.6 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £8.2 | £0.0 |
| | 16 | Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP) | 135 | 0 |
| | 16 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £12.3 | £0.1 |

WEFO, 31/12/2016

| Maes Ffocws | Mesur | Allbynnau | Targed | Rhagolwg |
|---|---|---|---|---|
| FA 5(d) Lleihau ocsid nitraidd a methan o amaethyddiaeth | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant | 884 | 260 |
| | 1.1 | Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd | 1,684 | 208 |
| | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm wariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau | £0.34m | £0.08m |
| | 1.2 | Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd | 20 | 36 |
| | 1.3 | Nifer o weithrediadau cyfnewid  fferm a gefnogwyd | 5 | 1 |
| | 1.1 -1.3 | Cyfanswm wariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos) | £3.7 | £1.1 |
| | 2.1 | Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd | 1,120 | 588 |
| | 2.3 | Nifer o gynghorwyr a hyfforddwyd | 2 | 52 |
| | 2.1 - 2.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £1.5 | £1.7 |
| | 4.1, 4.3 & 4.4 | Nifer o weithrediadau a gefnogwyd ar gyfer fuddsoddiad (ee storio tail, triniaeth tail) (4.1, 4,4 and 4.3) | 143 | 150 |
| | 4 | Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat) | £8.5 | £0.09m |
| | 4 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £3.4 | £0.09m |
| | 10.1 | Arwynebedd (ha) (ee gorchudd gwyrdd, is-gnwd, ffrwythloni llai, dad-ddwysai…) | 199,766 | 59,807 |
| | 10.1 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £17.9 | £11.67m |
| | 16 | Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (nid EIP) | 20 | 0 |
| | 16 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £5.2 | £0.2 |

WEFO, 31/12/2016

| Maes Ffocws | Mesur | Allbynnau | Targed | Rhagolwg |
|---|---|---|---|---|
| FA 5(e) Meithrin dal a storio carbon ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant | 84 | 260 |
| | 1.1 | Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a rhoddwyd | 164 | 208 |
| | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau | £0.03m | £0.08m |
| | 1.2 | Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd | 20 | 36 |
| | 1.3 | Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd | 5 | 1 |
| | 1.1 -1.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos) | £0.3 | £1.1 |
| | 2.1 | Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd | 84 | 76 |
| | 2.3 | Nifer y gynghorwyr a hyfforddwyd | 2 | 7 |
| | 2.1 - 2.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £0.2 | £0.2 |
| | 4.4 | Nifer o weithrediadau a gefnogwyd mewn fuddsoddiad anghynhyrchiol (4.4) | 5,090 | 151 |
| | 4 | Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat) | £3.6 | £0.36m |
| | 4 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £1.3 | £0.36m |
| | 8.1 | Arwynebedd (ha) i gael ei goedwigo (sefydliad yn uig-8.1) | 1,440 | 832 |
| | 8.1 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £7.66m | £4.43m |
| | 8.2 | Arwynebedd (ha) i'w sefydlu mewn systemau amaeth-coedwigaeth (8.2) | 147 | 50 |
| | 8.2 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £0.4 | £0.20m |
| | 8.3 | Nifer o fuddiolwyr ar gyfer camau gweithredu ataliol | 0.75 | 0 |
| | 8.3 | Arwynebedd a gefnogwyd (ha) | 225,000 | 0 |
| | 8.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.3) | £0.78m | £0.0 |
| | 8.4 | Nifer y fuddiolwyr a gefnogwyd | 160 | 184 |
| | 8.4 | Arwynebedd a gefnogwyd (ha) | 1,591 | 1,781 |
| | 8.4 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.4) | £3.7 | £4.02m |
| | 8.5 | Nifer y weithrediadau (fuddsoddiadau ar gyfer gwella gwydnwch a gwerth ecosystemau coedwigaeth) (8.5) | 1,850 | 393 |
| | 8.5 | Ardaloedd sy'n gysylltiedig a buddsoddiadau gwella gwydnwch a gwerth amgylcheddol ecosystemau coedwigoedd (8.5) | 22,000 | 3,000 |
| | 8.5 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.5) | £10.0 | £2.72m |
| | 10.1 | Arwynebedd ffisegol (ha) o dan hinsawdd amaeth-amgylchedd ar gyfer dal a storio carbon | 585 | 1,140 |
| | 10.1 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £2.2 | £1.06m |
| | 16 | Nifer y gweithgariadau cydwethredu a gefnogwyd (dim EIP) | 220 | 0 |
| | 16 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £5.5 | £0.2 |

WEFO, 31/12/2016

<u>Maes Canolbwyntio 5c</u>

Hyd yma, gwahoddwyd dau gais llawn dan Flaenoriaeth 5 (Maes Canolbwyntio 5c), y mae un wedi'i wrthod ers hynny.

Gwahoddwyd y cais llawn arall dan y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig dan Fesur 7.2 o'r Rhaglen. Caiff ceisiadau llawn eu cyflwyno hyd at ddyddiad cau'r cyfnod cyllido a chânt eu prosesu wrth iddynt ddod i law. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn dangos cynnydd hyd yma o ran gwariant a dangosyddion y ceisiadau llawn hyn.

Ar hyn o bryd, ni chaiff data ar ddangosyddion eu cofnodi cyn i broffil cyflawni'r gweithrediad gael ei gwblhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu'r data hyn pan gaiff y cais llawn ei gyflwyno.

Gweler cynnydd cynlluniau Glastir dan Flaenoriaeth 5 (Meysydd Canolbwyntio 5d a 5e) dan y diweddariad o Flaenoriaeth 4.

**Blaenoriaeth 6: Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, gwaith i leihau tlodi a datblygu'r economi mewn ardaloedd gwledig**
**Tabl 7: Cynnydd yn erbyn dangosyddion**

| Maes Ffocws | Mesur | Allbynnau | Targed | Rhagolwg |
|---|---|---|---|---|
| FA 6(a) Hwyluso arallgyfeirio, creu mentrau bach newydd a chreu swyddi | 2.1 | Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd | 336 | 168 |
| | 2.3 | Nifer o gynghorwyr a hyfforddwyd | 5 | 15 |
| | 2.1 - 2.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £0.4 | £0.5 |
| | 4 | Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat) | £2.1 | £0.0 |
| | 4 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £0.9 | £0.0 |
| | 6.2 + 6.4 | Nifer o fuddiolwyr (daliadau) yn derbyn cymorth cychwyn/cefnogaeth ar gyfer fuddsoddiad mewn wweithgareddau nad ydynt yn amaethyddol mewn ardaloedd gwledig (6.2 and 6.4) | 140 | 0 |
| | 6 | Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat) | £27.5 | £0.0 |
| | 6 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £15.0 | £0.0 |
| | 8.5 | Nifer o weithgareddiadau (fuddsoddiadau i wella cydnerthu a werth systemau eco coedwigaeth (8.5) | 400 | 0 |
| | 8.5 | Ardaloedd sy'n gysylltiedig a fuddsoddiadau gwella gwydnwch a gwerth amgylcheddol ecosystemau coedwigoedd (8.5) | 4,000 | 0 |
| | 8.5 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £0.6 | £0.0 |
| | 8.6 | Nifer o weithrediadau ar gyfer fuddsoddiadau mewn technoleg coedwigaeth a prosesu cynradd/marchnata (8.6) | 44 | 0 |
| | 8.6 | Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat) (8.6) | £4.0 | £0.0 |
| | 8.6 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.6) | £1.7 | £0.0 |
| | 16 | Nifer y weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP) | 106 | 0 |
| | 16 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £0.6 | £0.0 |
| | 6.2, 6.4, 8.6 | Nifer o swyddi a grewyd | 142 | 0 |

WEFO, 31/12/2016

<u>Maes Canolbwyntio 6a</u>
Gwahoddwyd 21 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus ac un cais uniongyrchol i gyflwyno cais llawn dan Faes Canolbwyntio 6(a)
Mae cyfanswm o bum cais llawn wedi dod i law dan Fesur 8.6, sy'n neilltuo cyfanswm o £271k ac mae un cais uniongyrchol wedi dod i law, sy'n neilltuo £5.3m. O'r 6 chais sydd wedi dod i law hyd yma, mae un wedi'i gymeradwyo, gyda chyfanswm dyraniad o £4.3k.

| Maes Ffocws | Mesur | Allbynnau | Targed | Rhagolwg |
|---|---|---|---|---|
| FA 6(b) Meithrin datblygiadau lleol mewn ardaloedd gwledig | 7.1 | Nifer o weithrediadau a gefnogodd cymorth ar gyfer llunio datblygiad pentref a chynlluniau rheoli ardal N2000/HNV | 100 | 0 |
| | 7.2 | Nifer o weithrediadau a gefnogodd cymorth ar gyfer fuddsoddiadau mewn seilwaith ar raddfa fechan, yn cynnwys seilwaith ynni adnewyddadwy | 56 | 0 |
| | 7.4 | Nifer o weithrediadau a gefnogodd cymorth ar gyfer fuddsoddiadau mewn gwasanaethau sylfaenol ar gyfer y boblogaeth wledig | 168 | 0 |
| | 7.5 | Nifer o weithrediadau a gefnogodd cymorth ar gyfer fuddsoddiadau mewn seilwaith hamdden/twristiaeth | 100 | 0 |
| | 7.6 | Nifer o weithrediadau a gefnogodd cymorth ar gyfer astudiaethau/fuddsoddiadau mewn treftadaeth diwydiannol a naturiol, gan gynnwys safleoedd HNV | 80 | 0 |
| | 7.7 | Nifer o weithrediadau a gefnogodd cymorth ar gyfer fuddsoddiadau mewn adleoli gweithgareddau ar gyfer rhesymau amgylcheddol/ansawdd bywyd | 50 | 0 |
| | 7.1, 7.2, 7.4, 7.5, 7.6, 7.7 | Poblogaeth yn elwa o gwasanaethau well/seilweithiau | 1,381,745 | 0 |
| | 7 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £39.5 | £0.0 |
| | 19 | Nifer o Grwpiau Gweithredu Lleol a ddewiswyd | 18 | 18 |
| | 19 | Nifer o prosiectau a gefnodwyd | 54 | 54 |
| | 19 | Nifer oprosiectau cydweithredu a gefnogwyd | 27 | 0 |
| | 19 | Poblogaeth a gynnwyswyd gan Grwpiau Gweithredu Lleol | 1,381,745 | 0 |
| | 19.1 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ cymorth paratoadol | £0.1 | £0.0 |
| | 19.2 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ ar gyfer gweithredu gweithrediadau o dan strategaeth CLLD | £32.3 | £0.0 |
| | 19.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ paratoi a weithredu cynlluniau weithgareddau cydweithredu grwpiau gweithredu lleol | £3.4 | £0.0 |
| | 19.4 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ ar gyfer costau rhedeg ac animeiddio | £11.9 | £0.0 |
| | 16 | Nifer o weithgariadau cydwethredu a gefnogwyd (dim EIP) | 31 | 0 |
| | 16 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £7.5 | £0.0 |
| | 7 + 19 | Nifer o swyddi a grewyd | 100 | 0 |

WEFO, 31/12/2016

Maes Canolbwyntio 6b

Bellach, mae 139 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus, chwe chais uniongyrchol a gwahoddwyd 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol i gyflwyno cais llawn dan Faes Canolbwyntio 6b.

Hyd yma, mae 91 o geisiadau llawn wedi dod i law dan y Maes Canolbwyntio hwn, gan neilltuo cyfanswm o £55.8m. O'r rhain;

- mae 15 o geisiadau llawn ar gyfer y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio dan Fesur 16.2 wedi dod i law, gwerth £15.1m.
- mae 58 o geisiadau llawn ar gyfer Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig dan Fesurau 7.2, 7.3, 7.4, 7.5, 7.6 a 7.7 wedi dod i law, gwerth £7.5m.
- mae 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol wedi cyflwyno ceisiadau llawn, gwerth £33.2m.

| Maes Ffocws | Mesur | Allbynnau | Targed | Rhagolwg |
|---|---|---|---|---|
| FA 6(c)Gwella hygyrchedd i ddefnydd ac ansawdd gwybodaeth a technolegau chyfathrebu (TGCh) mewn ardaloedd gwledig | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant | 400 | 130 |
| | 1.1 | Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd | 400 | 104 |
| | 1.1 | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau | £0.04m | £0.04m |
| | 1.1 -1.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos) | £0.43m | £0.55m |
| | 7.3 | Nifer o weithrediadau ar gyfer fuddsoddiadau mewn seilwaith band eang, gan gynnwys gwasanaethau e-llywodraeth (7.3) | 49 | 0 |
| | 7.3 | Poblogaeth yn elwa o seilwaith TG newydd neu gwell (ee rhyngrwyd band eang) | 500,000 | 0 |
| | 7.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ | £3.4 | £0.0 |

WEFO, 31/12/2016

Maes Canolbwyntio 6c

Gwahoddwyd 4 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno cais llawn dan Faes Canolbwyntio 6c. Hyd yma, mae 2 gais llawn wedi dod i law dan Fesur 7.3 y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig, gan neilltuo cyfanswm o £210k.

Caiff ceisiadau llawn eu cyflwyno hyd at ddyddiad cau'r cyfnod cyllido a chânt eu prosesu wrth iddynt ddod i law. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn dangos cynnydd hyd yma o ran gwariant a dangosyddion y ceisiadau llawn hyn.

Ar hyn o bryd, ni chaiff data ar ddangosyddion eu cofnodi cyn i broffil cyflawni'r gweithrediad gael ei gwblhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu'r data hyn pan gaiff y cais llawn ei gyflwyno.

## PWYLLGOR MONITRO RHAGLEN CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD (ESI) 2014 – 2020:

## RHOI THEMA DRAWSBYNCIOL AR WAITH: DATBLYGU CYNALIADWY

### Pwnc

1. Mae'r papur hwn yn cynnwys adolygiad blynyddol o'r cynnydd a wnaed o ran rhoi thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy ar waith yn Rhaglenni Cronfa Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ESF ac ERDF 2014 – 2020.

### Argymhelliad

2. Gwahoddir yr aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad ac i gynnig sylwadau.

### Cefndir

3. Datblygu Cynaliadwy yw un o'r tair thema drawsbynciol sydd wedi'u hintegreiddio yn Rhaglenni 2014-2020. Mae'r Rheoliadau Cyffredinol sy'n llywodraethu'r Rhaglenni Ewropeaidd yn nodi bod yn rhaid i'r holl weithrediadau a ariennir drwy'r Fframwaith Strategol Cyffredin integreiddio Datblygu Cynaliadwy o dan Erthygl 8. Yn ôl y Rheoliadau, 'Member States and the Commission shall ensure that environmental protection requirements, resource efficiency, climate change mitigation and adaptation, biodiversity, disaster resilience, and risk prevention and management are promoted in the preparation and implementation of Partnership Agreements and programmes'.

### Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy

4. Cytunodd y Comisiwn Ewropeaidd ar y dangosyddion a ganlyn ar gyfer Datblygu Cynaliadwy fel thema drawsbynciol yn Rhaglenni Gweithredol ERDF ac ESF:

   - "Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau a systemau monitro datblygu cynaliadwy"
   - "Gweithrediadau sy'n integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant"

5. Mae'r dangosyddion yn bresennol yn y blaenoriaethau a ganlyn:

### ERDF:

### Blaenoriaeth 1 Ymchwil ac arloesi

<u>Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru: Amcan penodol 1.2</u>

- nifer  y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella'u strategaethau datblygu cynaliadwy a'u systemau monitro

Sylwch: Mae dadansoddiad sylfaenol cychwynnol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd o dan weithrediad Porth Arloesi SMART, a fydd yn nodi'r dull mwyaf priodol o gyflawni dangosyddion y thema drawsbynciol ar gyfer y flaenoriaeth hon. Cytunwyd y byddai cynnydd yn cael ei fesur ôl y dangosyddion hyn ar ôl cwblhau casgliadau'r dadansoddiad.

**Blaenoriaeth 2 Cystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh):**

Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru: Yr holl amcanion penodol ac eithrio 2.3

- nifer y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella'u strategaethau datblygu cynaliadwy a'u systemau monitro

**ESF:**

**Blaenoriaeth 1 Trechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy:**

Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru: Yr holl amcanion penodol.

- nifer y gweithrediadau sy'n integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg neu hyfforddiant

**Blaenoriaeth 2 Sgiliau ar gyfer twf:**

Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru: Amcan penodol 2.4 ac Amcan Penodol 2.3 EW.

- nifer y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella'u strategaethau datblygu cynaliadwy a'u systemau monitro

Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru: Yr holl amcanion penodol.

- nifer y gweithrediadau sy'n integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg eu hyfforddiant

**Blaenoriaeth 3 Cyflogaeth a chyrhaeddiad ieuenctid:**

Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru: Yr holl amcanion penodol.

- nifer y gweithrediadau sy'n integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg eu hyfforddiant

6. Mae'r wybodaeth yn **Atodiad 1** yn rhoi arweiniad defnyddiol i nifer y gweithrediadau a fydd yn rhoi gweithgareddau ar waith i gyflawni'r dangosyddion.

7. Ar hyn o bryd, mae'r data'n gyfyngedig ac mae'n anodd cynnig asesiad cywir o gynnydd. Drwy gyflwyno cyfnod paratoi yn y rhaglenni ESI presennol, gall gweithrediadau archwilio'r cyfleoedd posibl i gyflawni dangosyddion thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy os oes ansicrwydd ynghylch y ffordd orau o wneud hynny. Dim ond ar ddiwedd y cyfnod paratoi, ar ôl penderfynu ar

ddull clir o weithredu, y caiff y dangosyddion eu hychwanegu at y proffil cyflenwi prosiect. Ar hyn o bryd, mae deuddeg o weithrediadau wrthi'n mireinio'u dulliau o gyflawni'r dangosydd, sy'n mynnu bod gweithrediadau'n integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant. Nid yw'r prosiectau hyn wedi'u cynnwys yn y rhestr yn Atodiad 1.

**Dangosyddion cysylltiedig â'r thema drawsbynciol: prosiectau**

8. Mae'r penderfyniad i gynnwys dangosyddion ffurfiol ar gyfer datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni yn sbarduno prosiectau i roi sylw i'r thema drawsbynciol hon. Mae hefyd yn golygu y gellir monitro cynnydd yn systematig dros oes y rhaglen.

9. Fodd bynnag, fel y dangosodd y dystiolaeth a gasglwyd wrth baratoi adroddiad Gwerthuso Themâu Trawsbynciol 2015, mae cyfyngiadau ynghlwm wrth dargedau ffurfiol pan mae angen 'arddangos' a dilysu'r gweithgareddau ehangach sy'n rhan o'r prosiect ac sy'n gysylltiedig â'r themâu trawsbynciol. Mewn ymateb i gasgliadau'r adroddiad gwerthuso, mae dangosyddion ychwanegol wedi'u datblygu a'u cymhwyso ar gyfer prosiectau, (fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Monitro ym mis Mehefin 2015) a bydd hyn yn caniatáu i'r gweithgareddau hyn gael eu nodi a'u cofnodi. Cyflwynir dangosyddion prosiectau (gweler **Atodiad 4**) ochr yn ochr â dangosyddion ffurfiol ar gyfer y themâu trawsbynciol ac maent yn deillio o naratif y Cynlluniau Busnes a gyflwynwyd ar gyfer gweithrediadau a ariennir gan ESI. Mae hyn yn sicrhau nad oes unrhyw waith ychwanegol ynghlwm wrth y gweithrediadau pan gwblheir y ceisiadau, ond mae hefyd yn sicrhau bod modd nodi a chofnodi arfer da.

10. Mae'r wybodaeth yn **Atodiad 2** yn dangos y math o weithgareddau sy'n cael eu rhoi ar waith ynghyd â rhestr lawn o ddangosyddion cysylltiedig â'r thema drawsbynciol.

11. Un enghraifft o weithrediad sydd wedi ymgorffori'r dangosyddion prosiect yn llawn yw CUBRIC II, sydd dan arweiniad Canolfan Delweddu Prifysgol Caerdydd er Ymchwil i'r Ymennydd (CUBRIC). Roedd y gweithrediad hwn yn cynnwys ehangu ac adleoli'r Ganolfan i gyfleusterau a godwyd i'r pwrpas. Caiff CUBRIC ei ariannu drwy Flaenoriaeth 1 ERDF, Amcan penodol 1.1. ac, felly, nid oes cyfle iddo gyfrannu at ddangosyddion ffurfiol Datblygu Cynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r tabl a ganlyn yn dangos ymrwymiad y gweithrediad i'r themâu o dan y system dangosyddion.

| Cyfraniad arfaethedig at y dangosyddion | |
|---|---|
| **Prif ffrydio cyfle cyfartal a rhywedd** | • Mesurau i gymryd camau pendant i gefnogi merched |
| **Datblygu cynaliadwy** | • Datblygu cadwyn gyflenwi leol<br>• Integreiddio seilwaith gwyrdd |

| | |
|---|---|
| | • Cefnogi gweithgareddau i hybu bioamrywiaeth ar safle a ariennir drwy'r Gronfa Gymdeithasol.<br>• Mesurau i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol<br>• Cynlluniau rheoli amgylchedd safleoedd<br>• Rhagoriaeth BREEAM lle bo hynny'n berthnasol |
| **Trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol** | • Cynlluniau gwirfoddoli<br>• Meithrin sgiliau yn y gymuned |
| **Themâu trawsbynciol cyffredinol** | • Arfer da wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid<br>• Integreiddio cymalau cymdeithasol<br>• Datblygu/ymgysylltu â hyrwyddwyr y themâu trawsbynciol |

12. O ran ymrwymiad y gweithrediad hwn i ddatblygu cynaliadwy, mae'n glir bod cynaliadwyedd a lleihau effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd yn elfennau allweddol yng nghynllun canolfan CUBRIC. Enillodd yr adeilad statws 'rhagorol' yn ôl system BREEAM, gan fodloni un o ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau cyfalaf sy'n defnyddio arian cyhoeddus. Glynodd y contractiwr hefyd at un o amodau eraill Llywodraeth Cymru, sef y dylai o leiaf 10% o holl werth y deunyddiau a ddefnyddir ddod o ffynonellau sydd wedi'u hailgylchu neu eu hailddefnyddio, ac y dylai 25% o'r agregau a ddefnyddir ddod o ffynhonnell eilaidd neu ffynhonnell a ailgylchwyd. Mae cynllun yr adeilad hefyd yn cynnwys toeau gwyrdd a theras y tu allan i staff CUBRIC ei ddefnyddio. Plannwyd cyfuniad o fywlysiau a blodau gwyllt i ddiogelu ac i hyrwyddo cymaint o fioamrywiaeth ar y safle â phosibl.

<u>Ffotograff: Cadeirydd y Pwyllgor Monitro, Julie Morgan, yn ymweld â  CUBRIC II a'r teras ar y to gwyrdd.</u>



**Cysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau**

13. Mae Tîm y Themâu Trawsbynciol yn archwilio ffyrdd o dynnu sylw at y modd y mae gweithrediadau'n integreiddio themâu trawsbynciol wrth gynllunio a gweithredu eu prosiectau. Wrth weithio gyda Thîm Cyfathrebu WEFO, y nod yw codi proffil y themâu trawsbynciol a dangos eu gwerth ychwanegol i weithrediadau. Byddai WEFO yn croesawu unrhyw awgrymiadau gan aelodau'r Pwyllgor Monitro at y diben hwn.

14. Mae **Atodiad 3** yn dangos casgliad o negeseuon Twitter WEFO a ffeithluniau'n dangos y prosiectau amrywiol sy'n integreiddio'r themâu trawsbynciol.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

15. Mae WEFO, drwy'r Tîm Themâu Trawsbynciol, yn parhau i gyfrannu at ddatblygiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r Tîm wedi trafod y datblygiadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru (sy'n ymdrin â'r Ddeddf fel rhan o gylch gwaith eu hadran), ac maent wedi trefnu cyfarfodydd bob chwarter i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn ei throsglwyddo i WEFO.

16. Mae canllawiau'r themâu trawsbynciol wedi'u diweddaru'n ddiweddar i gydblethu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf yr Amgylchedd a'r ddeddfwriaeth newydd ym maes Cynllunio. Bydd y tîm yn ymgysylltu â chydweithwyr perthnasol yn Llywodraeth Cymru, fel y gwnaethant yng nghyswllt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i sicrhau bod WEFO yn cael gwybod am unrhyw ddiwygiadau neu newidiadau mewn deddfwriaeth neu bolisïau.

**Y camau nesaf**

17. Yn y dyfodol, bydd adroddiadau'n tynnu sylw at enghreifftiau o'r modd y mae Datblygu Cynaliadwy yn cael ei hintegreiddio fel thema drawsbynciol yng ngweithgareddau rhai prosiectau.

**Drafftwyd gan: Rhian Power-Battrick WEFO**
**Cymeradwywyd gan: Rob Halford WEFO**
**Dyddiad: 20/01/17**

## Atodiad 1


**Prosiectau sy'n cyfrannu at y dangosydd: 'nifer y mentrau sy'n mabwysiau neu'n gwella'u strategaethau datblygu cynaliadwy a'u systemau monitro' ar gyfer y thema drawsbynciol, Datblygu Cynaliadwy.**

| Teitl | Prif fuddiolwr | Rhaglen | Amcan penodol | Rhagolwg | Cyflawnwyd hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymorth Entrepreneuriaeth - Busnes Cymru** (Dwyrain Cymru) | Llywodraeth Cymru – Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | ERDF Dwyrain Cymru | 2.2 | 1,000 | - |
| **Cymorth i BBaCh - Busnes Cymru** (Dwyrain Cymru) | Llywodraeth Cymru – Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | ERDF Dwyrain Cymru | 2.4 | 3,250 | - |
| Busnes Cymdeithasol Cymru Dwyrain Cymru | Canolfan Cydweithredol Cymru | ERDF Dwyrain Cymru | 2.4 | 50 | - |
| **Cymorth Entrepreneuriaeth - Busnes Cymru** (Gn Cymru) | Llywodraeth Cymru – Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | ERDF Gn Cymru a'r Cymoedd | 2.2 | 1,500 | - |
| **Cymorth i BBaCh - Busnes Cymru** (Gn Cymru a'r Cymoedd) | Llywodraeth Cymru – Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | ERDF Gn Cymru a'r Cymoedd | 2.4 | 4,800 | - |
| Busnes Cymdeithasol Cymru (Gn Cymru a'r Cymoedd) | Canolfan Cydweithredol Cymru | ERDF Gn Cymru a'r Cymoedd | 2.4 | 200 | 10 |


**Prosiectau sy'n cyfrannu at y dangosydd: 'gweithrediadau sy'n integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant' ar gyfer y thema drawsbynciol, Datblygu Cynaliadwy.**

| Teitl | Prif fuddiolwr | Rhaglen | Amcan penodol | Rhagolwg | Cyflawnwyd hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwella Sgiliau Prentisiaid Dwyrain Cymru Rhaglen 1 | Llywodraeth Cymru – Adran Addysg a Sgiliau | ESF Dwyrain Cymru | 2.1 | 1 | - |
| Sgiliau Cyflogwyr a Chyflogeion Dwyrain Cymru AP1 | Coleg Cambria | ESF Dwyrain Cymru | 2.1 | 1 | - |
| Prentisiaethau Dwyrain Cymru | Llywodraeth Cymru – Adran Addysg a Sgiliau | ESF Dwyrain Cymru | 2.2 | 1 | - |
| Sgiliau Cyflogwyr a Chyflogeion Dwyrain Cymru AP2 | Coleg Cambria | ESF Dwyrain Cymru | 2.2 | 1 | 1 |
| Academi Busnes Gogledd Cymru Dwyrain Cymru | Grŵp Llandrillo-Menai | ESF Dwyrain Cymru | 2.2 | 1 | - |
| Swyddi dan Hyfforddiant Dwyrain Cymru | Llywodraeth Cymru – Adran Addysg a Sgiliau | ESF Dwyrain Cymru | 3.1 | 1 | - |
| Gwella Sgiliau Prentisiaid Rhaglen 1 | Llywodraeth Cymru – Adran Addysg a Sgiliau | ESF Gn Cymru a'r Cymoedd | 2.1 | 1 | - |
| Sgiliau ar gyfer Diwydiant 2 AP1 | Coleg Gŵyr Abertawe | ESF Gn Cymru a'r Cymoedd | 2.1 | 1 | - |
| Prentisiaethau | Llywodraeth Cymru – Adran Addysg a Sgiliau | ESF Gn Cymru a'r Cymoedd | 2.2 | 1 | - |
| Sgiliau i Gyflogwyr a Chyflogeion Gn Cymru a'r Cymoedd AP2 | Coleg Cambria | ESF Gn Cymru a'r Cymoedd | 2.2 | 1 | 1 |
| Sgiliau ar gyfer Diwydiant 2 AP1 | Coleg Gŵyr Abertawe | ESF Gn Cymru a'r Cymoedd | 2.2 | 1 | - |
| Prosiect Academi Busnes Gogledd Cymru Gn Cymru a'r Cymoedd | Grŵp Llandrillo-Menai | ESF Gn Cymru a'r Cymoedd | 2.2 | 1 | - |
| Swyddi dan Hyfforddiant | Llywodraeth Cymru – Adran Addysg a Sgiliau | ESF Gn Cymru a'r Cymoedd | 3.1 | 1 | - |

**Atodiad 2 -**
Mae'r graff isod yn dangos ymrwymiad prosiectau i gynnwys gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy:



Mae'r graff isod yn dangos ymrwymiad prosiectau i gynnwys gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddangosyddion y themâu trawsbynciol cyffredinol:



**Atodiad 3 – Cysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau.**

WEFO @wefocymru · 2h

1/3 Wyddoch chi sut mae prosiectau'r UE yng Nghymru yn hybu datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a threchu tlodi? gov.wales/funding/eu-fun…

WEFO @wefocymru · 2h

2/3 Cynaliadwyedd a lleihau'r effaith amgylcheddol yn allweddol wrth ddylunio @CUBRICcardiff, a gafodd gyllid yr UE: bam.co.uk/how-we-do-it/c…

1

WEFO @wefocymru · 2h

3/3 CUBRIC wedi cael statws rhagoriaeth @BRE_BREEAM ac wedi cynnwys toeon gwyrdd eco-gyfeillgar yn ei ddyluniad: bam.co.uk/how-we-do-it/c…



1

**Ffeithlun Datblygu Cynaliadwy :**



**Atodiad 4**

**Dangosyddion ar gyfer prosiectau:**
**Datblygu cynaliadwy**

1. Datblygu cod ecolegol sefydliadol
2. Datblygu cadwyn gyflenwi leol
3. Integreiddio seilwaith gwyrdd ar raddfa fechan
4. Integreiddio seilwaith glas ar raddfa fechan
5. Gweithgaredd sy’n hybu bioamrywiaeth ar safle a ariennir drwy’r Gronfa Gymdeithasol
6. Datblygu cynllun teithio sefydliadol a mentrau trafnidiaeth gynaliadwy
7. Mesurau i ddefnyddio adnoddau’n effeithiol
8. Cynlluniau rheoli amgylchedd safle
9. Rhagoriaeth BREEAM lle y bo’n berthnasol
10. Adeiladau’n cyrraedd safonau CEQUALL
11. Defnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDs) lle y bo’n berthnasol

**Prif ffrydio cyfle cyfartal a rhywedd**

1. Cymryd camau pendant i gefnogi merched
2. Cymryd camau pendant i gefnogi pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
3. Cymryd camau pendant i gefnogi pobl ifanc
4. Cymryd camau pendant i gefnogi gweithwyr hŷn
5. Cymryd camau pendant i gefnogi pobl anabl
6. Cymryd camau pendant i gefnogi eraill
7. Gweithgaredd sy’n herio gwahanu galwedigaethol
8. Gweithgaredd sy’n hybu cyflog cyfartal
9. Gweithgaredd sy’n ennyn diddordeb merched ym mhynciau STEM
10. Gweithgaredd sy’n hyrwyddo’r Gymraeg
11. Gweithgaredd sy’n cefnogi siaradwyr Cymraeg
12. Ymgysylltu â Grwpiau Mynediad i Bobl Anabl
13. Cefnogaeth i raglenni iechyd yn y gweithle
14. Gwasanaeth gofal plant
15. Gwasanaethau gofal eraill

**Trechu tlodi ac allgau cymdeithasol**

1. Gweithgaredd sy’n meithrin sgiliau yn y gymuned
2. Gweithgaredd mentora/ eirioli
3. Gweithgaredd i gefnogi cymheiriaid
4. Cynlluniau gwirfoddoli
5. Sefydliadau sy’n talu cyflog byw

**Themâu trawsbynciol cyffredinol**

1. Arfer da ym maes ymgysylltu â rhanddeiliaid
2. Datblygu / ymgysylltu â hyrwyddwyr y themâu trawsbynciol
3. Integreiddio cymalau cymdeithasol mewn gweithgaredd

4. Pecyn cymorth themâu trawsbynciol, archwiliadau iechyd, system llinell sylfaen, datblygu apiau etc
5. Datblygwyd pecyn hyfforddi ar y themâu trawsbynciol
6. Cyflwynwyd rhaglen hyfforddi staff
7. Gweithgaredd sy'n cyfrannu at ddangosyddion ffurfiol y themâu trawsbynciol yn y blaenoriaethau / amcanion os nad ydynt yn bresennol